# heddwch

gaeaf 2001-2
rhif 27
am ddim (neu gyfraniad)

cylchgrawn CND Cymru


# atal rhyfel! atal rhyfeloedd!




graffig: Dai Owen

**y tu fewn:**


Cymru yn erbyn rhyfel
newyddion trident ploughshares
gêm gyfrifiadur sy'n lladd go iawn - y cyswllt cymreig
'amddifyn' taflegrau cenedlaethol


**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw**

# ATAL RHYFEL! ATAL RHYFELOEDD!

**heddwch**
**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru).**

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.**

**Croeso i sylwadau, llythyron a erthyglau**


**Golygydd:**
Jill Stallard
(01550) 750 260

**Cyfiethydd:**
Sian Edwards
sian@derwen.demon.co.uk

**Cysodi:**
Redkite Print
(01591) 610 844
redkite@onyxnet.co.uk

**Pacio** gan wirfoddolwyr yng Ngaerdydd - i ymuno â'r hapus dyrfa hon, un prynhawn bob rhyw 2-3 mis, cysyllter â Brian Jones (01792) 830 330.


**Dwi wrthi'n sgrifennu'r erthygl yma drannoeth y gwrthdystiadau tyngedfennol a hanesyddol yn Llundain ac ym mhedwar ban y byd. Rwy'n credu'n gydwybodol ein bod wedi llwyddo i newid pethau ar y 15fed o Chwefror. Derbyniais negeseuon testun gan gydweithwyr mewn gwledydd eraill oedd yn gyffrous iawn ynglwn â faint oedd yn protestio yn y gwledydd hynny.** Ond doedd dim un yn cymharu â'n protest ni – â'r miliynau (yn llythrennol) a deithiodd i Lundain. Fel un o'r siaradwyr yn Hyde Park, roeddwn yn falch i allu dweud gymaint ohonom oedd wedi dod o Gymru a chymaint o rai eraill nad oeddynt wedi gallu teithio yno ond oedd yn teimlo mor gryf â ninnau. Gofynnodd y trefnwyr i mi ddal fy maner Draig Goch wrth siarad o'r llwyfan.

Rwy'n teimlo fel hen law o ran mynychu ralïau erbyn hyn, gan fy mod wedi bod ar bob gorymdaith heddwch yn Llundain ers 1980 yn ogystal â llawer o rai eraill. Roedd Llundain y dydd Sadwrn hwnnw yn syfrdanol. Roeddwn yn sefyll ger bron môr o filoedd lawer o bobl a phan fydden nhw'n cymeradwyo, roedd fel rhu anferth. Oherwydd maint y rali, methais ddod o hyd i neb roeddwn wedi trefnu cwrdd â nhw, ond roedd yn braf taro mewn i Ray Davies a'r Côr Cochion a chymryd rhan mewn perfformiad byr-fyfyr o Hen Wlad Fy Nhadau a ddenodd dorf fawr a chymeradwyaeth fwy.

## Felly beth nawr?

Rydym wedi cael llwyddiant aruthrol. Dydy pobl ddim wedi gwrthdystio mewn ffordd mor rymus â hyn ym Mhrydain o'r blaen. Fel y dwedodd Jesse Jackson ddydd Sadwrn, "dim ond cam cyntaf yw hyn". Rhaid cynyddu'r pwysau.

## Lladdfa a Dinistr

Mae cannoedd o filoedd o fywydau yn y fantol, lawer ohonynt yn blant Iraqi fel y rhai y cwrddais â nhw ar fy ymweliad diweddar â Baghdad. Mae'r plant hyn yn dlawd iawn ac yn dioddef o ddiffyg maeth oherwydd y sancsiynau. Maen nhw'n mynychu ysgolion sydd mor orlawn fel bod rhaid dysgu'r disgyblion mewn tair shifft y dydd. Pan eglurais ble'r oedd Cymru, roedden nhw'n gwybod eisoes – dyna o ble mae Ryan Giggs yn dod!

Mae mwy na 40 y cant o boblogaeth Iraq yn blant o dan 15 oed; byddai 9.6 miliwn o blant dan ymosodiad pe bai rhyfel. Dwi wedi bod yn darllen am Ryfel y Gwlff ym 1991, y rhyfel 'heb golledion' medden nhw. Wrth gwrs bod colledion, yn cynnwys y 400 o fenywod a phlant a losgwyd yn ulw pan fomiwyd lloches cyrchoedd awyr, a'r miloedd o filwyr Iraqi yn y lladdfa gan awyrennau bomio Americanaidd wrth iddyn nhw geisio dianc ar hyd y ffordd i Basra ar ddiwrnod ola'r rhyfel. Wythnos yn ôl, roeddwn yn sefyll ar fin y "Briffordd Farwolaeth" honno, lle gadawyd y cerbydau llosg yn atgof o'r gyflafan. Mae'n un fynwent anferth. Dyna yw rhyfel: lladdfa a dinistr.

Dywedais wrth y bobl y cwrddais â nhw fod pobl yng Nghymru allan ar y strydoedd yn protestio yn erbyn y rhyfel bob dydd, ym mhob cymuned.

Gwelais dlodi ac afiechyd ofnadwy yn Iraq, canlyniad gormes llywodraeth Saddam Hussein ac yn awr, ein cosb-sancsiynau ninnau. Byddai lladd pobl Iraq mewn rhyfel arall eto nid yn unig yn anfoesol, byddai'n methu sicrhau heddwch a chyfiawnder.

## Ateb Heddychlon

Mae ateb posibl i'r gwrthdaro wedi cael ei gynnig a'i hyrwyddo gan Ffrainc, yr Almaen a Gwlad Belg, gan ddefnyddio diplomyddiaeth yn hytrach na rhyfel. Dydy rhyfel erioed wedi datrys problemau rhyngwladol yn y tymor hir. Dyma'r adeg i archwilio achosion rhyfel ac anghyfiawnder ledled y byd. Mae ffyrdd eraill o atal neu ddatrys gwrthdaro, rhaid cyfeirio adnoddau'r byd at ymdrechion di-drais i adeiladu heddwch yn hytrach na pharatoi at ryfel. Ni all yr amgylchedd wrthsefyll effeithiau paratoi at ryfel ac ymladd rhyfel chwaith.

## Canlyniadau Trychinebus

Os na all gweddill Ewrop atal Prydain a'r UD rhag dechrau rhyfel, byddwn yn wynebu trychineb. Os ân nhw i ryfel yn awr, maent yn rhwygo'r rheolau rhyngwladol yn dipiau mân am byth. Bydd hynny'n agor y drws led y pen i fwy o frawychiaeth, imperialaeth ac unbennaeth. Mae'n senario brawychus. Fyddai'r byd byth yn ddiogel eto.

Testun balchder mawr i mi yw'r gwaith mae CND Cymru yn ei wneud. Mae'n wych gweld cymaint o ffrindiau, hen a newydd, yn gorymdeithio ar y strydoedd dros heddwch unwaith eto. Arddangosodd dydd Sadwrn 15fed Chwefror ein nerth ein hunain i ni. Rhaid i ni ei ddefnyddio'n ddoeth ac yn effeithiol, ond gyda'n gilydd, gallwn atal y rhyfel.

**Jill Evans ASE Cadeirydd CND Cymru**

# Cymru yn erbyn y Rhyfel

Gellid cyhoeddi cyfrolau yn cofnodi egni anhygoel gweithredwyr heddwch ym mhob rhan o Gymru – o wrthdystiadau ac arolygiadau dinasyddion mewn gwersylloedd milwrol a ffatrïoedd arfau i stondinau stryd, gwylnosau rheolaidd a ralïau. Mae CND Cymru wedi gwneud ei orau glas i gadw mewn cysylltiad â grwpiau a digwyddiadau a hysbysu'r wasg am bopeth sy'n digwydd. Dyma flas ar y teimladau yn erbyn y rhyfel ac o blaid heddwch a chyfiawnder sy'n cael eu mynegi ar strydoedd Cymru.




Wrecsam




Caerdydd









Caerdydd




Genny Bove o Wrecsam







Caerdydd




RAF Fali




Abertawe



# Mudiad Cymru yn erbyn y Rhyfel yn Tyfu

**Wrth i 'heddwch' fynd i'r wasg, er ei bod hi'n ymddangos yn weddol sicr y bydd yr UD, gyda chefnogaeth y llywodraeth Brydeinig, yn bwrw ymlaen i ymosod ar bobl Iraq, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd. Yr hyn sydd yn gwbl ddiamheuol yw fod y mudiad yn erbyn y rhyfel, neu'r mudiad heddwch, wedi cael ffrwydrad o ynni a llu o aelodau newydd, yn enwedig yn y pedwar neu bum mis diwethaf.**

Mae'r hyn y gellir ei ddiffinio fel mudiad, oherwydd yr un achos sy'n ei uno – Atal y Rhyfel ar Iraq – mewn gwirionedd yn gasgliad bywiog ac amrywiol o bobl o bob oed, o bob cefndir, ac o wahanol gyfeiriadau. Mae rhai'n heddychwyr, mae rhai wedi gweld y gwrthdaro yma fel rhywbeth anghywir 'ynddo'i hun', mae rhai eraill yn gwneud y cysylltiad diamheuol rhwng tra-arglwyddiaeth yr UD â bydehangiaeth, masnach a'r amgylchedd. O edrych yn ôl, gallwn weld fel mae dealltwriaeth o'r cysylltiad rhwng yr holl bethau hyn wedi tyfu yn y blynyddoedd diwethaf, gyda sefydlu Cynefin y Werin yng Nghymru, ymgyrchoedd Mudiad Datblygu'r Byd, Jubilee 2000, Earth First!, Corporate Watch, Greenpeace, yr Ymgyrch yn erbyn y Fasnach Arfau, yr Ymgyrch yn erbyn Wraniwm Hesb, Abolition 2000, y Mudiad i Wahardd Rhyfel ... mae'r rhestr yn ddibendraw. I'r rheini ohonom sydd wedi bod yn ymgyrchu ers blynyddoedd lawer, mae'n wefreiddiol bod yng nghanol y fath frwdfrydedd dros ein hachos.

**Mae'r Mudiad yn erbyn y Rhyfel yng Nghymru wedi ei ffurfio o:**

* **Unigolion** – miloedd lawer o bobl 'gyffredin', pobl sydd heb brotestio erioed o'r blaen a rhai sydd wedi parhau i ymgyrchu dros gyfnod maith a chefnogi'r mudiad heddwch
* **Grwpiau newydd ac adfywiedig** – mae mwy na 40 o grwpiau wrthi'n ymgyrchu ar hyn o bryd yng Nghymru yn erbyn y rhyfel, wedi eu gwreiddio mewn cymunedau, mudiadau gwleidyddol (fel Llafur yn erbyn y Rhyfel), grwpiau crefyddol a diwylliannol, mannau gwaith (fel 'Llyfrau nid Bomiau' yn y Llyfrgell Genedlaethol), grwpiau CND adfywiedig a Grwpiau Cyfiawnder a Heddwch oedd yn bod eisoes.
* **Cynghrair Genedlaethol Cymru yn erbyn y Rhyfel** a fydd efallai, yn y dyfodol, yn gweithredu fel rhwydwaith a ffynhonnell adnoddau.
* **CND Cymru**



RAF Llanelwy Ionawr 25 2003

**Mae bron pob un o'r grwpiau'n cynnwys ymgyrchu dros gyfiawnder i bobloedd Palesteina ac Israel, ac maent yn deall y cysylltiad clir rhwng y gwahanol bynciau hyn. Mae rhai'n edrych ar y darlun mwy – yn cysylltu rhyfel â phroblemau bydehangiaeth, masnach a thlodi.**

**Ni fyddai gweithio 'drwy Lundain' yn bodloni ymgyrchwyr yng Nghymru. Mae gennym ein hanes, ein dealltwriaeth, ein dyheadau a'n llais ein hunain, ac mae rhaid i ni ddefnyddio'r llais hwnnw i siarad yn glir ac yn adnabyddadwy gyda'n Cynulliad Cenedlaethol a gyda'n gilydd. Wrth gwrs, fel sy'n wir am bod mudiad arall yng Nghymru, mae problemau cyfathrebu, iaith a daearyddiaeth y mae'n rhaid eu cofio bob amser.**

Mae CND Cymru yn gweithredu fel cydgysylltydd ar hyn o bryd drwy helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer rhwydweithio, a darparu gwybodaeth i'r cyfryngau, aelodau, gweithredwyr a chynrychiolwyr etholedig. Rydym hefyd at wasanaeth pobl o'r tu allan i Gymru, ac fe'n hadnabyddir yn rhyngwladol fel Mudiad Heddwch Cymru. Mae pawb ymhob man sy'n rhan o'r ymgyrch yma yn gweithio eu gorau glas, heb lawer o amser i feddwl, a dydyn ni ddim bob amser yn cael pob dim yn iawn! Mae nifer o fylchau yn y gwaith o adeiladu'r ymgyrch, fel yr angen am ddeunyddiau ymgyrchu dwyieithog: taflenni, posteri, bathodynnau a sticeri. Mae croeso i bob cynnig o gymorth ac adnoddau! Bydd CND Cymru yn parhau i ymdrin â'r problemau mwy, gan fynd i'r afael â materion yn ymwneud â militareiddio, technoleg niwclear, a gwreiddiau trais, ond gobeithiwn elwa ar sensitifrwydd cynyddol poblogaeth Cymru i'r materion hyn i dynnu eraill i mewn i'r ymgyrch dymor-hwy.

heddweithredu **I chwarae rhan yn yr ymgyrch dymor-hwy, ymunwch ag CND Cymru, cysylltwch eich grwp lleol ag CND Cymru a dewch i ymuno yn y drafodaeth!**

# Trip Ysgol Tra Gwahanol

Aethpwyd ar ymweliad ysgol arbennig iawn yn ddiweddar pan aeth tri aelod staff a naw disgybl ar daith 200-milltir o hyd o Dregaron i Stoke Newington yng ngogledd Llundain. Y rheswm? Ymweld â beddrod Henry Richard, 'Apostol Heddwch', AS Rhyddfrydol (1868-88) ac ymgyrchydd dros heddwch.

Fwy na chanrif yn ddiweddarach, beth sy'n achosi i ni gofio Henry Richrad? Ef oedd yr AS cyntaf erioed i wneud ymgyrchu dros heddwch yn flaenoriaeth, a chafodd ei ddyfalbarhad ddylanwad gwirioneddol yn y Senedd. Yn hynod debyg i ddadleuon cyfoes, dadleuai na ddylai Prydain fynd i ryfel heb bleidlais, a bu bron iddo ennill cefnogaeth y mwyafrif.Mae'n wych meddwl fod coffa da amdano yng Nghymru, ac roedd staff a disgyblion Ysgol Uwchradd Tregaron yn eiddgar i ymateb i awgrym Bruce Kent, sydd newydd sefydlu'r Mudiad er Dileu Rhyfel, y dylent ymweld â Llundain er mwyn tacluso beddrod Richard, sydd wedi cael ei esgeuluo ers sawl degawd. Felly, yn y man, teithiodd Huw Roderick, Pennaeth Hanes, Linda Carlisle, Pennaeth Technoleg Gwybodaeth, ynghyd â'r Swyddog Ieuenctid Cymuned a naw myfyriwr i Stoke Newington lle cawsant eu croesawu gan Bruce Kent, Pat Allen, CND Llundain, a'r Parch. D. Gwylfa Evans, Gweinidog Eglwysi Annibynnol Cymraeg Llundain. Ar adeg â chymaint o drais o'n cwmpas, roedd yn wych o beth gwneud dolen gyswllt newydd dros heddwch.

**Pat Allen**

# Gêm Gyfrifiadur sy'n Lladd Go iawn

**Ym mis Tachwedd 2002, yn Yemen, dinistriodd awyren 'diberson' 'Predator' y CIA gar a'r teithwyr ynddo, yr honnwyd eu bod yn aelodau o Al Qaeda. Eisteddai'r 'peilot' pellennig filltiroedd i ffwrdd yn gwasgu allweddellau mewn canolfan reoli symudol. Gan adlewyrchu'r un athroniaeth 'lladd o bell' sy'n sail i'r weithred o fomio gydag arfau 'confensiynol' neu arfau dinistr torfol, dywedir fod y "Pentagon o'r farn fod awyrennau diberson fel y Predator yn berffaith ar gyfer y cyrchoedd hynny sydd mor ddiflas, mor frwnt neu mor beryglus fel ei bod yn well gadael bodau dynol allan ohoni." Heb law am y bodau dynol sy'n cael eu lladd, hynny yw.**

### Cyfrifoldeb

Mae'r Cerbyd Ymladd Awyr Diberson (CYAD) diweddaraf a ddadorchuddiwyd yn diweddaru'r 'Predator'. Mae'r CYAD yma'n hedfan ar ei ben ei hun heb gyfarwyddyd dynol cyson. Bwriedir y bydd awyrennau o'r fath yn y man "yn hela mewn heidiau o bedwar" ar "gyrchoedd 'diwrnod cyntaf rhyfel' peryglus". Mae cerbydau tir diberson sy'n tanio arfau yn cael eu datblygu hefyd ac mae llynges yr U.D. yn cynllunio llong-danfor ladd ddiberson. Disgwylir y gallai'r rhain, wedi i'r meddalwedd lladd milwrol gael ei ddatblygu, weithredu gyda'i gilydd fel system farwol dan reolaeth cyfrifiadur.

Mae'r Cyrnol Michael Leahy o Awyrlu'r UD yn mynnu "rhaid fod person dynol yn y broses rywle bob amser" ond mae John Hansman, peiriannydd o Sefydliad Technoleg Massachusetts wedi dweud y byddai'n fwy ymarferol rhoi i awyrennau "ganiatâd i saethu'n otomatig" gan y byddai "galw gartref" am ganiatâd yn cymryd gormod o amser. Testun pryder i Hansman yw'r newid moesol mewn rhyfela y gallai hynny ei olygu: "Mae llawer mwy anodd pennu'r cyfrifoldeb am unrhyw farwolaethau. Ai ar y gweithredydd mae'r bai? Neu'r rhaglennydd cyfrifiadur? P'run bynnag, mae'r person sy'n gyfrifon ymhell iawn i ffwrdd o'r sefyllfa ei hun."

### Profwyd yng Nghymru

Yn y cyfamser, yng Nghymru, mae Awdurdod Datblygu Cymru yn gobeithio denu cwmni anferth Boeing o'r UD, gydag arian cyhoeddus, i rentu Maes Awyr Llanbedr (rhwng Harlech a'r Bermo) i ddatblygu Cerbydau Ymladd Diberson. Cyhoeddwyd y llynedd y byddai canolfan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Llanbedr yn cau am resymau ariannol. Mae'r safle'n cael ei redeg ar ran y Weinyddiaeth gan QinetiQ, y cwmni sydd hefyd yn rhedeg y safleoedd profi ym Mhentywyn (Caerfyrddin) ac Aberporth (Ceredigion). Mae profion yn cael eu gwneud ar fomiau chwalu bynceri ym Mhentywyn ar hyn o bryd, ac mae trigolion cylchoedd Pentywyn ac Aberporth yn poeni'n fawr am effaith y cynydd mewn gweithgareddau milwrol yn eu hardaloedd. Cafodd canolfannau Llanbedr ac Aberporth eu defnyddio'n ddiweddar i wneud profion ar ddwy awyren ddiberson Brydeinig, ond mae'r gwaith profi'n mynd i gael ei symud i'r Alban. Yn rhyfedd ddigon, mae Elfyn Llwyd, AS Meirionnydd Nant Conwy, wedi croesawu profion ar awyrennau diberson ar y safle, ar y sail amheus y bydd hynny'n creu cyflogaeth yn yr ardal.

Gydag awyrennau rhyfel yn hedfan yn isel drosom, milwyr yn ymarfer yn ein lonydd a'n strydoedd, hofrenyddion a gynnau peiriant ar ein mynyddoedd ac yn ein coedwigoedd, ymddengys y byddai'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn hapus iawn i weld Cymru gyfan yn cael ei throi'n un Maes Tanio Milwrol. Mae pobl Cymru'n anghytuno.

### Cymru Gynaliadwy?

Mae angen swyddi go iawn ar y rhannau hyn o gefn gwlad Cymru. Mae'n hysbys ers amser maith y gallai'r arian a'r adnoddau sy'n cael eu hymrwymo i adeiladu arfau, o'u cyfeirio at bron unrhyw gynnyrch arall, gynhyrchu mwy o swyddi. Ar wahân i'r cwestiwn moesol p'run ai ei bod hi'n iawn i bobl baratoi i ladd pobl arall mewn gêm gyfrifiadur bywyd go iawn, mae oblygiadau amgylcheddol llygredd a'r gwastraff adnoddau yn gwneud profi arfau yn ddiwydiant annerbyniol i Gymru. Onid yw'r WDA yn gwybod fod hon yn wlad â Chynulliad Cenedlaethol sydd wedi gwneud ymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol? Mae dal i ddibynnu ar ryfel i gynnal bywyd cymdeithasol ac economaidd yn hunan-ddinistriol. Mae rhyfel a pharatoi at ryfel yn dihysbyddu ein hadnoddau gwerthfawr – ysbrydol, dynol a materol. Ni dyma'r hyn a fynnwn ar gyfer y byd, a nid dyna a fynnwn ar gyfer Cymru.

**Jill Stallard**

**heddweithredu ☮ Dylai'ch AS a'ch AC gael glywed eich barn am hyn. Os dewch o hyd i ragor o wybodaeth am y safleoedd hyn, da chi, cysylltwch ag CND Cymru (gweler Cysylltiadau).**




graffig: Brian Kavanagh

## Menwith Hill

Canolfan yr UD yn Menwith Hill yw gorsaf fonitro electronig fwya'r byd, sydd yn derbyn negeseuon gan loerennau, ac mae hefyd yn ganolfan allweddol yn y project milwrol ymosodol cyfnod-hir, 'Star Wars'. Bydd hefyd fod yn rhan o system 'Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol' yr UD. Mae'r gwersyll heddwch yn bresenoldeb gweladwy ac yn ganolbwynt ar gyfer gweithredu uniongyrchol di-drais.

Mae Gwersyllwyr Heddwch wedi bod yn monitro ceisiadau cynllunio ar gyfer ehangu safle Menwith Hill ymhellach, a 'chyfrannu' tuag atynt. Mae Cyngor Plwyf Fellliscliffe wedi dweud: *"Mae twf a datblygiad di-ddiwedd, i bob golwg, y safle yma yn destun pryder i gynghorwyr..."*

**heddweithredu ☮ Mae Gwersyll Heddwch Menywod Womenwith Hill ryw 500 llath i'r dwyrain o wersyll Menwith Hill, ar gilfach barcio Kettlesing Head, ar yr A59 ryw 7 milltir i'r gorllewin o Harrogate. Womenwith Hill Women's Peace (Camp)aign, Blwch SP 105, Harrogate, Gogledd Swydd Efrog HG3 2FE Lloegr (01943) 468 593 neu 466 825**

**Dydd Sadwrn Mawrth 22ain 2003 Rhwystro'r Gwersyll! Diwrnod o weithredu uniongyrchol creadigol, heddychlon, cerddoriaeth, siaradwyr a thaith o gwmpas canolfan filwrol yr UD yn Menwith Hill, Swydd Efrog. Am hyfforddiant mewn gweithredu uniongyrchol, siaradwyr ar Star Wars a Menwith Hill, neu i drefnu cludiant o'ch ardal chi, cysylltwch â Neighbourhoods Opposing War (NOW) 07905 913 139 neu mail@now-peace.org.uk Am fwy o wybodaeth, www.now-peace.org.uk neu CND Swydd Efrog: 01274 730795**

## Lakenheath




Ffurfiwyd Grup Gweithredu Lakenheath i gael gwared ag arfau niwclear Americanaidd o Brydain. Nid mater hawdd mo hynny, ond gall ymgyrch benderfynol gan y bobl lwyddo. Mae rhyw 30 o arfau niwclear yr UD wedi ei lleoli yn U.S.A.F. Lakenheath yn Suffolk; arfau na ellir eu defnyddio i ddim diben ond lladd torfol a diwahân, ac sy'n gwenwyno ein hamgylchedd.

Mae'r arfau hyn yn anghyfreithlon o dan y gyfraith ryngwladol ac maent yn cael eu hedfan yn ôl a blaen i Brydain yn rheolaidd ar awyrennau sy'n hedfan dros Gymru a de-orllewin Lloegr.

Meddai Gwersyllwyr Heddwch Lakenheath: "Credwn fod arfau niwclear yn anghywir o dan unrhyw amgylchiadau. Ond teimlwn anghyfiawnder mwy byth oherwydd fod yr arfau yn Lakenheath yn rhai Americanaidd, nid Prydeinig, felly does dim rheolaeth ddemocrataidd yn y byd gennym dros sut neu pryd y gellid eu defnyddio. At hynny, mae Lakenheath wedi chwarae rhan ganolog mewn ymosodiadau ar Iraq yn ystod y 12 mlynedd diwethaf. " Ymosododd awyrennau o 48ain Asgell Awyrennau Ymladd Awyrlu'r UD, o'u cartref yn Lakenheath, ar Iraq ym 1991, 1992, 1993, 1994 a 1999.

**heddweithredu ☮ Cynhelir gwylnos ar ddydd Mercher cyntaf pob mis. Ar ddydd Llun 14eg Ebrill 2003 Cynhelir Taith Gerdded John Bugg a Gwylnos i goffáu bomio Libya. Bwriedir cynnal gweithred uniongyrchol dorfol ddi-drais ym mis Hydref. Gwybodaeth gan: www.lakenheathaction.org/ Cysyllter â: Davida Higgin, Lakenheath Action Group ar (01508) 550 446 tan brynhawn Sul, a wedi hynny ar (07765) 332 304**

## Faslane

Mae Gwersyll Heddwch Faslane, y Gwersyll Heddwch hynaf ym Mhrydain, wedi bodoli ers 1982 i wrthwynebu presenoldeb arfau niwclear yng Ngorsaf Lynghesol Faslane ar Afon Clud, 30 milltir o Glasgow. mewn modd di-drais. System arfau niwclear bresennol Prydain yw Trident, sef pedair llong danfor dosbarth 'V' (Vanguard, Victorious, Vigilant, a Vengeance). Gall pob un o'r llongau tanfor gario hyd at 14 o daflegrau Trident, sydd ag 8 ergyd yr un. Mae gan un ergyd allu ffrwydrol ddengwaith maint y bom a ollyngwyd ar Hiroshima. Mae gan yr arfau hyn, gyda'i gilydd, y gallu i ddinistrio hanner y byd. Mae gwir angen ymwelwyr ar Wersyll Heddwch Faslane. Mae'r gwersyllwyr yn gwahodd pawb i ddod i aros a helpu, boed am ddiwrnod, wythnos, mis neu'n hwy, neu alw heibio am awr neu ddwy am baned a sgwrs. Bum mlynedd yn ôl, enillodd Cyngor Argyll a Bute achos llys i symud Gwersyll Heddwch Faslane o'r safle y mae wedi ei feddiannu ers 15 mlynedd. Atgyfnerthwyd amddiffynfeydd fel twnneli, tai a rhodfeydd ym mrigau'r coed, ond yr elfen bwysicaf oedd mewnlifiad anferth o bobl newydd, a ddaeth ag ynni a brwdfrydedd newydd gyda nhw. Ildiodd y Cyngor. Dangoswyd iddynt nad mater hawdd na rhad fyddai troi'r gwersyllwyr allan – byddai wedi costio hyd at £300,000 i wneud hynny. Heddwch a orfu.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae mwy o weithredu wedi bod yng nghanolfan longau tanfor Trident Faslane gan y Gwersyllwyr Heddwch a Trident Ploughshares sydd wedi arwain at restio mwy nag 800 o bobl yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae cynghorwyr Toriaidd lleol am atal y protestiadau drwy droi'r Gwersyllwyr Heddwch allan. Yn awr, mae'r cyngor yn sôn unwaith eto am droi allan. Mae'r Gwersyll Heddwch yn ganolfan ar gyfer gweithredoedd diarfogi Trident Base ac mae'n brotest weladwy yn erbyn ffieidd-dra arfau niwclear Prydain. Mae croeso i gefnogaeth ymarferol ac ariannol bob amser.

**heddweithredu ☮ Cysyllter â'r gwersyll: Gwersyll Heddwch Faslane, Shandon, Helensburgh, G84 8NT Yr Alban . Ffon: (01436) 820 901 faslanepeacecamp@hotmail.com. Cyfraniadau (os gwelwch yn dda): sieciau'n daladwy i 'Faslane Peace Camp'**

## Maes Awyr Shannon

Mae'r Gwersyll Heddwch a sefydlwyd y tu allan i Faes Awyr Shannon yn swydd Limerick, Iwerddon yn nyddiau oer mis Ionawr, yn enghraifft hyfryd o brotest lwyddiannus! Yng ngeiriau Martina Devlin yn *Ireland on Sunday* "Dim rhyfedd fod y 'peaceniks' wedi hel eu pac a mynd; maen amlwg nad oedd lle yn y gwersyll iddyn nhw a'u gwenau anferth." Gwnaeth yr holl ddigwyddiad i Lywodraeth Iwerddon a'i dehongliad cyfnewidiol o 'niwtraliaeth' edrych braidd yn chwerthinllyd.Cawsai'r Gwersyll Heddwch ei sefydlu fel protest yn erbyn defnyddio maes awyr (sifil) Shannon fel man glanio i filwyr Americanaidd ar eu ffordd i'r Gwlff, yn enwedig mewn gwlad 'niwtral'. Cafodd Mary Kelly ac Eoin Dubsky eu restio am eu gweithredoedd y tu fewn i'r maes awyr, a danlinellodd wendidiau yn niogelwch y maes awyr. Danfonwyd un garda (heddgeidwad) i amddiffyn awyrennau'r UD wedi i Mary Kelly wneud gwerth 50,000 euro o niwed i un ohonyn nhw. Yn sgil gweithred y llywodraeth, gwnaeth pump o ymgyrchwyr eraill (y 'Pit Stop Ploughshares Community') niwed pellach i awyren

arall. Symudodd y cwmni o'r UD o'r maes awyr wedi hynny, ar sail diffyg diogelwch, ac mae wedi dargyfeirio awyrennau i'r Almaen (angen sefydlu Gwersyll Heddwch arall?). Wrth i ni fynd i'r wasg, mae'r grup Ploughshares yn dal i fod yng ngharchar Limerick. Roedd dau o'r morthwylion a ddefnyddiwyd yn eu gweithred ddiarfogi wedi cael eu defnyddio i ddiarfogi awyren fomio B52 ym Maes Awyr Griffin yn Efrog Newydd mewn gweithred 'Anzus Ploughshares' ym 1991. Roedd un wedi cael ei ddefnyddio yng ngweithred Ploughshares BAe Chris Cole ym 1993 a'r weithred Ploughshares Hadau Gobaith ym 1996 pan ddiarfogodd pedair menyw awyren BAe Hawk a oedd ar ei ffordd i gael ei defnyddio gan Indonesia yn ei rhyfel yn erbyn pobl Dwyrain Timor. Cafodd y morthwyl ei drosglwyddo wedyn i Jubilee Ploughshares a ddiarfogodd gonfoi niwclear Trident yn 2000, tra'r oedd yn cludo ergydion niwclear o Aldermaston i Faslane. Sgrifennodd Ciaron O'Reilly, un o'r diarfogwyr, o Garchar Limerick: "Roedd y weithred ei hun yn hardd iawn – ar ôl cropian drwy laid a llaca'r maes awyr ... fe gyrhaeddon ni'r hangar. Roedden nhw newydd orffen y gwaith atgyweirio ar ôl gweithred ddiarfogi Mary Kelly yn wythnos flaenorol, ddim ond awr neu ddwy yn gynharach. Dyma ni'n chwistrell-beintio'r hangar â'r geiriau "Pit Stop for Death" a "The War Stops Here! Phil Berrigan RIP".

**heddweithredu ☮ Am wybodaeth bellach am Faes Awyr Shannon a'r ymgyrch 'Refuelling Peace", neu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr achosion llys sy'n mynd yn eu blaen, ymwelwch â : http://refuelingpeace.org/ Cysylltwch â'r ymgyrchwyr: Mary Kelly, Tim Hourigan 061 317721, 086-3784780, 087-37437271 085-7290674 shannonpeacecamp@hotmail.com**

# Pentywyn

*"Rydym mewn sefyllfa ryfel, does dim dewis gennych, rhaid i chi adael eich cartrefi am hyd at dridiau."*

Dyna eiriau llefarydd ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn wrth deulu ifanc sy'n byw ger llaw'r sefydliad profi bomiau ym Mhentywyn, Sir Gaerfyrddin. Mae'r cwmni sy'n rhedeg y safle, QinetiQ, yn gwneud profion ar fom chwalu bynceri 'at ddefnydd yn Iraq'. Oherwydd i'r profion yn Ffrainc arwain at ddinistrio'r ganolfan brofi, symudwyd y profion i Bentywyn. Dywedwyd wrth bobl Pentywyn fod rhaid iddynt symud o'u cartrefi gyda'u holl anifeiliaid anwes ac anifeiliaid fferm am bum awr, ond fod rhaid iddynt fod yn barod i gadw draw am dri diwrnod 'pe bai pethau'n mynd o le'. Pam gorfodi pobl allan o'u tai fel hyn? Ydy hynny'n gyfreithlon? Pam eu halltudio cyhyd? Beth fydd yr effaith tymor-hir o ran llygredd?

Gobeithio y bydd y digwyddiad ofnadwy yma yn achosi i rai pobl gwestiynu moesoldeb safle sy'n perffeithio arfau sydd eisoes wedi cael eu defnyddio yn erbyn plant, gwragedd a dynion diniwed.

Rhaid i ni atal Cymru rhag cael ei defnyddio fel maes profi ar gyfer peiriannau rhyfel. Mae arnom angen gwaith sydd o fudd i gymdeithas, nid swyddi, costied a gosto.

**heddweithredu ☮ Sgrifennwch at eich cynrychiolwyr etholedig. Cefnogwch weithredu uniongyrchol i atal tramgwyddo hawliau dynol ac anifeiliaid fel hyn. Cysylltwch ag CND Cymru (gweler cysylltiiadau) a/neu Caerfyrddin yn erbyn y Rhyfel: Barry Wade (01559) 384 671**

# Llwch i'r Llwch

Mewn ateb i'r cwestiwn a oedd Wraniwm Hesb (WH) yn elfen o'r arfau oedd yn destun profion ar faes saethu Pentywyn yn Sir Gaerfyrddin, dywedwyd wrth ymgyrchwyr fod "yr holl brofion ar arfau wraniwm hesb yn digwydd yn yr Alban." Fel y nodwyd mewn rhifynnau blaenorol o *heddwch*, addefwyd erbyn hyn fod y Sefydliad Arfau Atomig, yn sgîl profion ar arfau o'r fath ar feysydd tanio milwrol West Freugh a Kircudbright yn yr Alban, wedi darganfod fod lefelau o ymbelydredd yn yr ardaloedd hyn wyth gwaith yn uwch na lefelau ymbelydredd 'cefndir naturiol'.

## Môr Iwerddon

Mae profion newydd ar arfau WH ar fin cael eu cynnal yn ne-orllewin yr Alban. Bydd ffrwydron gwrth-danciau 'Charm 3' yn cael eu ffrwydro ar faes tanio Kircudbright. Mae miloedd o ffrwydron â blaenau WH ym Môr Iwerddon eisoes wedi dau ddegawd o weithgaredd milwrol yn y cylch. Mae'r grup ymgyrchu 'Y Gynghrair Geltaidd' wedi galw am atal llygru Môr Iwerddon fel hyn, gan gyhoeddi fod: "Môr Iwerddon yn adnawdd sydd o fudd i'r holl gymunedau ar ei lannau". Mae'r Gynghrair Geltaidd wedi sgrifennu at yr holl lywodraethau o gwmpas Môr Iwerddon yn galw arnynt i'w gwneud hi'n glir wrth y Llywodraeth Brydeinig nad yw gweithgareddau milwrol yn gydnaws â'r nod o ddiogelu amgylchedd môr Iwerddon.

## Cyfreithlondeb

Mae cyn-filwyr Rhyfel y Gwlff 1990-1 wedi cyhoeddi rhybudd yn erbyn defnyddio Wraniwm Hesb mewn arfau ac mae llawer wedi ymuno â Brigâd Atal y Rhyfel, mudiad o gyn-aelodau o'r lluoedd arfog. Mae ymchwil newydd a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Ymchwil Wraniwm wedi datgelu fod rhai cannoedd o bobl yn Nhalaith Jalalabad yng ngogledd Afghanistan yn dioddef o afiechydon ac anhwylderau sy'n arddangos yr un nodweddion clinigol â rhai cyn-filwyr Rhyfel y Gwlff. Roedd pob person y gwnaed profion arnynt yn yr ardal yn dangos olion heintio mewnol gan wraniwm, gyda chrynoadau o isotopau wraniwm gwenwynig ac ymbelydrol rhwng 100 a 400 gwaith yn fwy nag a gafwyd mewn profion ar gyn-filwyr Rhyfel y Gwlff. Mae'r ymchwil yn mynd yn ei flaen. Daethpwyd o hyd i fannau ymbelydrol gyda llygredd WH yn Bosnia a Herzegovina yn sgîl ymgyrch fomio NATO. Defnyddiwyd rhyw 400 tunnell o ffrwydron WH yn Iraq yn rhyfel 1990/91 war a 40 tunnell yn Iwgoslafia ym 1999. Mae WH ar ei fwyaf peryglus pan fydd yn llosgi ar ôl ffrwydrad, pan fydd gronynnau microsgopig o Ocsid Wraniwm yn cael eu hanadlu i mewn neu eu llyncu. Dadleuwyd yn ddiweddar fod defnyddio ffrwydron WH ar faes y gad yn gosod cynsail cyfreithiol peryglus, a'i fod yn gam mawr tuag at gyfreithloni defnyddio arfau niwclear mewn brwydr.

**heddweithredu ☮ I gael mwy o wybodaeth am yr Ymgyrch yn erbyn Wraniwm Hesb (CADU), sy'n cynhyrchu llythyr newyddion ardderchog, cysyllter â: 0161 273 8293 ebost: info@cadu.org.uk http//: www.cadu.org.uk. Gellir cysylltu â mudiad y cyn-filwyr, Brigâd Atal y Rhyfel ar: 0049 (0) 177 481 6128 stopthewarbrigade@yahoo.com www.angelfire.com/jazz/stwb**

# Sefydliad Arfau Atomig (SAA) Aldermaston – y Diweddaraf

**Mae Cynllun Strategaeth Datblygu Safle'r SAA yn dweud mai ei nod yw "gwella golwg y SAA" a'i wneud yn "lle mwy atyniadol i weithio ynddo".** Erbyn tudalen pump, rydym yn darllen am y gwaith hydrodynameg arfaethedig, laser puer uchel (Cyfleuster Tanio Niwclear) a labordai defnyddiau ar gyfer ymchwil a datblygiad. Mae adeiladu newydd yn Aldermaston wedi bod ar y gweill ers 1999, pan oedd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ystyried cynnig gan gonsortiwm BNFL, Lockheed Martin & Serco am gytundeb deng-mlynedd i redeg y gwaith cynhyrchu arfau niwclear. Rhan o'r cytundeb hwn, sy'n dal heb ei arwyddo, oedd cytuno i'w ymestyn am 25 mlynedd pellach. Rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2002, disgwylid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ddechrau cyflwyno hysbysiadau cynllunio i Gyngor Dosbarth West Berkshire, ond does dim un hysbysiad wedi ymddangos eto.

## Profion ar arfau newydd

Bydd y cyfleusterau newydd yn y SAA yn galluogi ymchwil ar arfau niwclear i barhau, heb brofion tanddaearol, sydd wedi eu gwahardd o dan y Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr. Dydy hyn ddim yn fater o adeiladu cyfleusterau cynhyrchu newydd. Gellir defnyddio'r gwaith cynhyrchu ergydion A90 presennol i adeiladu a gwasanaethu ergydion niwclear am flynyddoedd lawer, ond gosod yr offer newydd priodol. Mae'r sgiliau a'r offer i adeiladu arfau niwclear bach yn bod hefyd. Yr hyn sy'n ddiffygiol yw'r cyfarpar i roi prawf arnynt – dyna'r rheswm am y cynlluniau amgen tymor-hir sy'n cynnig ffyrdd o roi prawf ar ddyluniadau newydd.

## Rheolaeth SAA

Ym mis Mehefin 2002, rhagwelai SAA "fwlch o bosib rhwng gwariant y Cwmni a'r incwm a fydd ar gael" ac o ganlyniad, "dyfeisiwyd model newydd ar gyfer rhedeg y busnes". Mae amheuon ynglwn â chymhwyster AWE Management Ltd a'i berthynas â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymwneud â chyllid ac oedi: oedi cyn cytuno ar y cytundeb adeiladu newydd 25-mlynedd, oedi cyn cyflwyno hysbysiadau cynllunio a addawyd bob mis ers mis Gorffennaf, ac oedi cyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y SAA 2001 tan fis Rhagfyr 2002. Ac yn awr, dyma'r rwtsh carbwl a ganlyn o gylchgrawn mewnol y cwmni *AWE Today*, mis Rhagfyr, yn holl ogoniant yr iaith wreiddiol:

***"Company-level plans will be finalised in January with the Directorate Business Area Accountability Plans up-dated in February. This will allow time for more detailed departmental, team, and individual work plans to be agreed before April 1st 2003 so that we can 'hit the ground running', knowing exactly what the plan is."***

## Gall y Gweinidog benderfynu

Nid dyma'r tro cyntaf i arfau niwclear ddod i sylw Cyngor West Berks yn Newbury. Yn y 1980au, lleoli taflegrau niwclear Cruise yng ngwersyll Awyrlu'r UD yng Nghomin Greenham oedd y broblem. Mae gan gynghorwyr lleol ddau ddewis yn awr: naill ai derbyn yr hysbysiadau cynllunio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, gyda'r perygl yr aiff yr ardal yn ganolbwynt i brotestiadau diarfogi niwclear mawr eto, neu atgyfeirio'r mater at Weinidog yr Amgylchedd sydd â'r hawl i sefydlu Ymchwiliad Cyhoeddus.

**Di Macdonald** ***Y Gwasanaeth Gwybodaeth Niwclear***



# Llu Heddwch Di-drais Newydd

Mae mudiad heddwch rhyngwladol pwysig newydd, 'Nonviolent Peaceforce', newydd gael ai lansio, â'r bwriad o greu llu heddwch rhyngwladol o sifiliaid hyfforddedig a all ymyrryd yn ddi-drais mewn gwrthdaro. Ysbrydoliaeth y mudiad oedd Apêl Heddwch yr Hâg 1999 a ddenodd fwy na 9.000 o bobl i lansio mudiad heddwch.

Mae 'Nonviolent Peaceforce' yn bwriadu lleoli cannoedd o weithwyr dros heddwch mewn gwahanol fannau i amddiffyn hawliau dynol, atal trais, a sicrhau datrys gwrthdaro mewn modd heddychlon.

Siaradodd un aelod o 'Nonviolent Peaceforce', John Stewart o Zimbabwe, ar achlysur lansio'r mudiad yn India ym mis Tachwedd 2002: "Ein nod yw disodli milwyr cadw'r-heddwch gan sifiliaid cadw'r-heddwch. Gallwn ni wneud hynny'n well nag y gall milwyr" meddai. Roedd siaradwyr eraill yn yr achlysur yn cynnwys Ela Gandhi, wyres Mahatma Gandhi, arweinydd yr wrthblaid yn Bangladesh, Sheikh Hasiina Wajed, Samdhong Rinpoche o Tibet, Arnina Kashtan o Israel, a Kelly Campbell a Barry Adundson o UDA a gollodd berthnasau iddynt yn yr ymosodiadau ar Ganolfan Fasnach y Byd.

Mae gan 'Nonviolent Peaceforce' dair swyddfa yn yr Unol Daleithau ac un yr un yng Nghanada a Phrydain, lle bydd aelodau'n dilyn cwrs tri-mis o hyffordi dwys mewn datrys gwrthdaro. "Rydym yn amhleidiol. Dydyn ni ddim yn ochri gyda neb" meddai cyfarwyddwr y project, Mel Duncan.

**heddweithredu ☮ Am fwy o wybodaeth, cysyllter â: David Grant DGrant@NonviolentPeaceForce.org Ffacs: (+1)-202-244-6396 PO 11309 Washington DC 20008 UDA http://www.nonviolentpeaceforce.org**

# Bomiau Niwclear o Ynni Niwclear



Mae paratoadau'r llywodraeth Brydeinig ar gyfer rhyfel drudfawr ac anfoesol yn Iraq yn seiliedig ar y gred ei bod yn bosibl fod gan Iraq arfau dinistr torfol. Mae'r llywodraeth Brydeinig yn gwaredu at y ffaith fod Gogledd Korea wedi tynnu allan o'r Cytundeb Atal Lledaenu (CALl). Efallai y byddai mwy o barch wedi bod gan y pwerau di-niwclear a arwyddodd y CALl, fel Gogledd Korea, pe bai'r pum gwladwriaeth sydd ag arfau niwclear wedi gwneud mwy i gadw eu hochr nhw o'r fargen. Pan gytunodd y gwledydd di-niwclear i beidio â datblygu arfau niwclear, fe addawodd y gwledydd niwclear *"i fynd ati i negydu yn ddidwyll ar fesurau effeithiol yn ymwneud ag atal y ras arfau yn fuan, ac at ddiarfogi niwclear"*. Does nemor ddim arwydd fod y gwledydd niwclear yn gwneud dim mwy na dinistrio arfau sydd wedi darfod amdanynt ac, yn enwedig yn achos yr Unol Daleithau, eu bod yn benderfynol o fwrw ymlaen i ddatblygu arfau newydd.

### Yr Economi Blwtoniwm

Mae'r llywodraeth Brydeinig yn llwyr wrthod dilyn mesurau effeithiol i sicrhau fod llai o blwtoniwm, y defnydd hanfodol mewn bom niwclear, ar gael. Byddai hyn yn llawer mwy effeithiol na bygwth rhyfel fel cam i atal lledaeniad arfau niwclear. Yn hytrach nag atal y broses o wahanu plwtoniwm, rhoddodd y llywodraeth Brydeinig ganiatâd i waith MOX Sellafield i ddefnyddio plwtoniwm wedi ei ailbrosesu mewn Tanwydd Ocsidau Cymysg (MOX) a gynhyrchir ar gyfer cwsmeriaid tramor BNFL. Gan fod y plwtoniwm yn anymbelydrol, mae'n gymharol hawdd ei dynnu o'r tanwydd MOX. Beth allai fod yn well targed i frawychwyr na llond llong o danwydd MOX yn hwylio hanner ffordd o gwmpas y byd? Roedd Japan yn un o'r prif gwsmeriaid tan sgandal y cofnodion ffug ym mis Medi 2000; o ganlyniad, cafodd y llwyth o MOX a gawsai ei ddanfon i Japan ei ddychwelyd i Sellafield. Pan fydd tanwydd MOX yn cael ei losgi mewn adweithydd, mae'n cynhyrchu bron yr un faint o blwtoniwm ag a ddefnyddir i'w gynhyrchu, sy'n gwneud dadl BNFL fod MOX yn ffordd o leihau'r stoc o blwtoniwm yn annidwyll, a dweud y lleiaf.

### Plwtoniwm – cynnyrch gwastraff

Mewn rhaglen yn y gyfres *Brass Tacks* ym 1987, cyfaddefodd Syr Kelvin Spencer, Prif Wyddonydd y Weinyddiaeth Buer, 1954-6, yn gyhoeddus yr hyn roeddem ni yn y mudiad gwrth-niwclear yn ei amau erioed – sef mai'r rheswm gwreiddiol dros hyrwyddo puer niwclear oedd i gynhyrchu plwtoniwm ar gyfer rhaglen arfau niwclear Prydain. Yn awr, mae'r byd yn boddi mewn plwtoniwm, ac eto mae'n dal i gael ei wahanu. Argymhellodd adroddiad Tw'r Arglwyddi ym mis Mawrth 1999 y dylid ystyried dosbarthu plwtoniwm fel gwastraff ymbelydrol, cam a fyddai â chanlyniadau ariannol difrifol i allu British Nuclear Fuels i ddal i weithredu. Nid dyma'r unig ffordd mae'r diwydiant niwclear fel pe bai mewn trafferthion. Disgwylir y bydd y Papur Gwyn ar ynni sydd ar fin ymddangos yn penderfynu o blaid ynni adnewyddadwy yn hytrach na niwclear, datblygiad i'w groesawu sy'n ei gwneud hi'n annhebyg (gobeithio!) y caiff cenhedlaeth newydd o orsafoedd puer niwclear eu hadeiladu.

### Ufuddhau i'r Cytundeb

Yn y tymor byr, rhaid i ni barhau i bwyso ar wledydd i ufuddhau i Erthygl 6 yn narpariaethau'r CALl sy'n galw am ddiarfogi niwclear llawn, ffyrdd diogel o storio plwtoniwm, ac atal ailbrosesu tanwydd niwclear hesb.

**Jenny Maxwell (Is-Gadeirydd CND Prydeinig)**

## Lledaeniad Arfau Niwclear: Cyfle i ddweud eich dweud

Bydd cyfarfod y Pwyllgor Paratoadol (PrepComm) ar gyfer Cynhadledd Adolygu'r Cytundeb Atal Lledaenu (CALl) niwclear yn 2005 yn cael ei gynnal yn Genefa ddiwedd Ebrill/dechrau Mai eleni. O dan Erthygl 6 o'r CALl, a ddaeth i rym ym mis Mawrth 1970, addawodd y pum gwladwriaeth niwclear *" i fynd ati i negydu yn ddidwyll ar fesurau effeithiol yn ymwneud ag atal y ras arfau yn fuan, ac at ddiarfogi niwclear, ac ar gytundeb ar ddiarfogi cyffredinol a llwyr o dan reolaeth ryngwladol gaeth ac effeithiol."* Yn y Gynhadledd Adolygu yn 2002, cytunodd y pum gwladwriaeth sydd ag arfau niwclear ar dri cham ar ddeg tuag at eu *"haddewid diamwys i gyflawni'r nod o ddileu eu harfogaeth niwclear yn llwyr"*. Da chi, sgrifennwch at y Cynrychiolydd Prydeinig i Gynhadledd y CU ar ddiarfogi gan nodi'r pwyntiau a ganlyn:

- Gyda Gogledd Korea wedi cefnu ar y CALl, mae'r Cytundeb mewn perygl difrifol o chwalu;
- Byddai gan wledydd di-niwclear fwy o barch tuag at y cytundeb pe baent yn gweld tystiolaeth fod y gwladwriaethau niwclear swyddogol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan ei ddarpariaethau;
- Rhaid i Brydain adrodd ar yr hyn mae wedi ei gyflawni wrth Gynhadledd Baratoadol 2003, fel sydd yn ofynnol o dan gam 12 o'r 13 cham y cytunwyd arnynt yn 2002.

*Y Llysgennad David Broucher, Cynrychiolydd Parhaol i'r Gynhadledd ar Ddiarfogi, Y Genhadaeth Brydeinig i'r Gynhadledd ar Ddiarfogi, 37-39, Rue de Vermont, 1211, Genefa 20, Y Swisdir.* Cost danfon llythyr un-ddalen i wlad arall yn Ewrop yw 37 ceiniog. Os oes modd, danfonwch gopi o'ch llythyr at eich AS.

# Ymgyrch Trident Ploughshares

## 2002 – Blwyddyn arall o guro cleddyfau

**2002 oedd y flwyddyn pan ymunodd Devonport ag Aldermaston â'r canolfannau niwclear yr Alban sy'n ffocws i'r ymgyrch Trident Ploughshares wrth i'r llong danfor Trident gyntaf, Vanguard, fynd yno i gael ei hailwampio, cadarnhad pellach y bydd y llywodraeth yma'n parhau i gynnal arfau dinistr torfol Prydain, os gadawn iddi.**

Wel, wnawn ni ddim. Gan adlewyrchu mesur cryf o wrthwynebiad lleol yn ogystal ag anfoesoldeb arfau niwclear, gwnaeth Saith Devonport warchae ar un o glwydi'r doc ar y 3ydd o Chwefror, a helpodd y weithred, a'r ymddangosiadau llys canlynol, i roi'r mater ar ben yr agenda gyhoeddus yn Plymouth. Ym mis Medi, cafodd Margaret Jones a Ray Davies (Is-gadeirydd CND Cymru) eu restio ar eu ffordd i wneud niwed difrifol i'r llong danfor Trident gefnogol, Tireless, ac ym mis Tachwedd sefydlwyd gwersyll penwythnos hir mewn sgwat gysurus yn un o hen adeiladau'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Daeth uchafbwynt y penwythnos nos Wener, pan lwyddodd Petter Joelson ac Elisa Silvenoenen nid yn unig i fynd i mewn i'r doc, ond i fynd i grombil Vanguard ei hun, a threulio cryn amser yn crwydro o'i chwmpas cyn canu larwm y llong i roi gwybod i'r gwarchodwyr eu bod yno. Gwnaeth y digwyddiad yma argraff anferth a pharhaus yn lleol. Y dydd Llun wedyn, llwyddason i ddwyn gwarchae ar Glwyd Albert i'r dociau, pan gafodd grup o saith o fenywod, o grup cefnogwyr Muriel Lester yn bennaf, eu restio ar ôl eu cloi eu hunain wrth y glwyd. Roedd yn wersyll llwyddiannus iawn, wedi ei drefnu'n dda gan y grup lleol. Ar strydoedd Plymouth roedd llawer o gydymdeimlad tuag at ein safiad.

### Yr Alban

Nid yw canolfannau niwclear yr Alban ac Aldermaston wedi cael eu hanwybyddu. Ym mis Chwefror, dyma ymuno ag CND yr Alban am warchae tri-diwrnod ar Faslane. Ar y diwrnod cyntaf, yr 11eg, llwyddwyd i gau'r ganolfan i gerbydau am y cyfnod hwyaf eto – ddaeth dim byd i mewn nac allan am fwy na thair awr. Un o'r digwyddiadau mwyaf trawiadol oedd restio draig werdd fawr a baban ym mreichiau ei fam (cafodd ei ddad-restio yn fuan, i osgoi embaras i'r heddlu). Ymhlith staff y Llynges a ddioddefodd anghyfleustra roedd gur y Dywysoges Anne (chofia'i mo'i enw nawr) ond doedd e ddim yn hapus iawn pan fu raid iddo ddisgyn o'i fws a cherdded heibio i'r bobl, y baneri a'r caneuon, pan ddynwaredodd Dave Rolstone blismon cwsg a gorwedd o dan y cerbyd. Daeth gwersyll mis Awst yn Coulport â phobl o bella ac agos, yn cynnwys nifer o fudiad "Lleisiau yn yr Anialwch" yr UD am brotest 'farw' â neges syml: "Peidiwch â thanio Trident at Iraq". Roedd Dave Rolstone yn gymaint o ddraenen yn eu hystlys ag erioed, gan nofio gyda Gillian Sloan at long danfor Trident yng nghanol yr angorfeydd tra-diogel, peintio "Vile" ar ddwy ochr y llong a chanu ei chloch. Tua 4.30 y bore wedi eu hantur nofio, pan oedden nhw yng nghelloedd Faslane, fe es i â dillad sych draw i Faslane ar eu cyfer. Roedd hi'n wawr binc, fendigedig, a dwedais hynny wrth y gwarchodwr diogelwch ar y glwyd. "Ydy, i chi" meddai. *"Maen nhw'n cachu brics mewn fanna – yn rhedeg o gwmpas fel pethau gwyllt, ag ofn colli eu swyddi."*

### Aldermaston

Os bu unrhyw amheuaeth erioed y dylai Aldermaston ddal i elwa ar ein sylw, dilewyd hynny pan gyhoeddwyd y datblygiadau yno fydd yn braenaru'r tir ar gyfer cenhedlaeth newydd o arfau niwclear Prydeinig. Fel yn Devonport yn ddiweddarach, Margaret Jones a Ray Davies oedd yr agorawd i'r gwersyll pan aethant ati i dorri llwyth o'r ffens i lawr yn Aldermaston. Pan sefydlwyd y gwersyll ei hunan yno, restiwyd naw o bobl, gyda Juliet McBride yn arddangos y ffordd fwyaf gwreiddiol o dorri i mewn. Wrth iddi hi dywyllu nos Sul, torrodd ar draws cyfarfod heddlu drwy ddringo tair ffens a mynd i mewn i swyddfeydd y Weinyddiaeth Amddiffyn drwy'r drws ffrynt heb i neb ei herio. Llwyddodd i sleifio o dan fraich gwarchodwr ac ymuno â'r cyfarfod cyn i heddwas ei lapio mewn siaced a'i chario allan, o flaen yr heddgeidwaid syfrdan.

### Cyfiawnder llygatrist

A na, fel roeddech chi'n tybio, wnaeth yr awdurdodau ddim ymateb i'r holl weithgarwch yma drwy guro'n cefnau. Mae mwy na 1,800 wedi cael eu restio yn yr ymgyrch erbyn hyn, cafwyd dirwyon o fwy na £50,000 a cynhaliwyd 386 achos llys. Treuliodd Ulla Roder dri chyfnod yn y carchar yn 2002 ac mae'n dal i fod yng ngharchar Low Newton yn Durham, gan wneud cyfraniad trawiadol at y mwy na 1,700 o ddyddiau mae gweithredwyr wedi eu treulio dan glo (heb gynnwys amser yng nghelloedd gorsafoedd heddlu). Mae'r rhan fwyaf o'r achosion wedi bod yn gysylltiedig â digwyddiadau yn Faslane, yn y Llys Ardal bychan yn Helensburgh. Pan wrthododd yr Uchel Lys apêl y Goron yn erbyn cael ASA Tommy Sheridan yn ddieuog o dorri'r heddwch adeg gwarchae ar Faslane, roeddem yn obeithiol iawn y byddai'r erlidigaeth y byddwn yn ei dioddef yno am brotestio'n heddytchlon yn lleihau. Yn anffodus, mae'r Llys wedi troi'n ôl at ei hen ffyrdd, ac mae'n collfarnu pobl fwy neu lai'n otomatig. Ond mae pobl yn dal i ddod allan o'r llys yn fwy penderfynol o barhau'r frwydr na phan aethan i mewn.

### Mwy o egni

Mae hefyd wedi bod yn flwyddyn pan chwaraeodd llawer o weithredwyr Trident Ploughshares ran heddychlon yn ymgyrch Israel/Palesteina, ac mae pawb bron wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch yn erbyn rhyfel yn Iraq. Mae'r cysylltiadau byw yma wedi cynyddu'r egni sydd yn mynd i mewn i ymgyrch Trident wrth i'r cysylltiadau rhwng Trident a gweddill y gwallgorwydd ddod yn gliriach bob dydd.

### Gwrthsafiad bach

Mae un atgof yn sefyll allan, uwchlaw pob un arall. Yn ystod gwersyll Awst 2002 gyda'r nos ar ddydd Nagasaki, dyma ni'n ymgasglu ar lannau Loch Long a hwylio llusernau lliw ar y dyfroedd tywyll. Roedd y rhain yn cynrychioli ysbrydion y rhai fu farw yn y gyflafan a wedi hynny. Mae ein hymrwymiad ni i barhau i frwydro yn erbyn arfau niwclear wedi lleddfu eu syched eto, ac rydym yn eu danfon adref.

*At ysbryd y byd hwn*
***Sy'n sychedu am heddwch***
*Yn sychedu am gyfiawnder*
*Yn sychedu am iachâd*
*Down ag offrwm*
*Ein gwrthsafiad bychan*
*A'n hatgofion*

**David Mackenzie** Trident Ploughshares

# Trident yn Bangor

**Cafodd pum person eu restio yng ngorsaf llongau tanfor Trident yr U.D. Bangor ar Ddydd Dr. Martin Luther King mewn gweithred uniongyrchol ddi-drais oedd yn anrhydeddu bywyd a gwaith Dr. King.** Roedd y weithred uniongyrchol yn rhan o wrthdystiadau byd-eang a gynhaliwyd yn erbyn y rhyfel, o Washington i Gaerdydd, ar Ionawr 18fed, ond roedd hefyd yn ymgais i atal lleoli taflegrau niwclear D-5 newydd a thaflegrau cruise Tomahawk ar longau tanfor Trident yr UD, a defnyddio arfau niwclear Trident yn y 'rhyfel ar frawychiaeth'.Mae gorsaf llongau tanfor Trident Bangor ryw 15 milltir i'r gorllewin o Seattle a dyma gartref 9 llong danfor Trident a 1,760 o ergydion niwclear yn y Môr Tawel. Ar hyn o bryd mae'r orsaf wrthi'n gosod y system daflegrau Trident D-5 ar longau tanfor ac yn paratoi i osod taflegrau cruise Tomahawk ar bedair llong danfor Trident hwn.

## Rhai o Arfau Dinistr Torfol yr U.D.

**TBRhGau ar dir:** 550 o daflegrau'n cario 1,700 o ergydion (502,000 ciloton)
**TBRhGau ar longau tanfor:** 432 o daflegrau'n cario 3,120 o ergydion (456,000 ciloton)
**Awyrennau Bomio:** 115 jet yn cario 1,660 o ergydion (209,000 ciloton)
**Arfau niwclear tactegol:** (ar longau tanfor ac awyrennau bomio) 1,120 o ergydion (184,000 ciloton)
**Cyfanswm ergydion**: 7,600 (gyda 382 o rai "sbâr")
**Cyfanswm mewn cilotonau: 1,351,000 neu 108,080 o fomiau Hiroshima**

**TBRhGau** = Taflegrau Balistig Rhyng-Gyfandirol
Ffynhonnell: The Bulletin of Atomic Scientists Mai 2002

### Gweithred

Restiwyd y protestwyr am rwystro'r ffordd yn arwain at fynedfa'r ganolfan. Roedd gweiriau Martin Luther King ar eu baner: "Together we must learn to live as brothers and sisters or together we will be forced to perish as fools." Mae'n annhebyg y bydd neb o'r rhai a restiwyd yn cael eu cyhuddo o drosedd. Dydy erlynwyr Kitsap County ddim wedi llwyddo i gollfarnu gweithredwyr di-drais a restiwyd yn Bangor ar dri achlysur blaenorol. Mae Rheithgorau a Barnwyr wedi cael fod gan y bobl a restiwyd ym mhrotestiadau Bangor yr hawl gyfreithiol i unioni achwynion o dan gyfraith ryngwladol a chyfraith yr U.D. drwy weithredu uniongyrchol di-drais. Ers mis Chwefror 2000, mae erlynwyr Kitsap County wedi dewis peidio ag erlyn pobl am weithredoedd uniongyhrchol di-drais yn Bangor, gan ddweud nad yw'r fath weithredu "yn gyfystyr â throsedd" ym marn y gymuned.

### Braw-atal

Nid arf 'braw-atal' yw Trident, fel yr honnir, ond yr arf 'trawiad cyntaf' gwreiddiol, a gyda pholisi newydd yr UDA o ragymosod, y mae'n llawer tebygach o gael ei ddefnyddio. Gall llongau tanfor Bangor lansio'u harfau yn y dirgel a gweithredu yng nghyffiniau targedau yn y Dwyrain Canol ac Asia.Ym mis Ionawr eleni, lansiwyd y taflegryn Tomahawk cyntaf a cherbyd hedfan di-berson arbrofol 10,000 pwys o long danfor Trident.



### Gwaharddiad Llys

Ym mis Ionawr, cyhoeddodd y mudiad gwrth-niwclear a heddwch **'The Ground Zero Center for Nonviolent Action'**, wybodaeth yn dangos fod Llynges yr U.D. wedi tanio arfau wraniwm hesb ger arfordir Washington. Mae clymblaid o fudiadau amgylchedd a heddwch yn ystyried ceisio gorchymyn llys yn gwahardd Llynges yr U.D, rhag tanio mwy o ffrwydron wraniwm hesb.Cynhelir y weithred nesaf ger Bangor ar Sul Y Mamau, Mai 11, 2003.

**heddweithredu ☮ Cysylltwch â Ground Zero, mudiad hynod iawn a ddathlodd 25 mlynedd o dystio di-drais llynedd, i'w gefnogi. Cysyllter â: 16159, Clear Creek Road NW, Poulsbo, WA 98370, UDA www.gzcenter.org neu info@gzcenter.org**

# Llais call o UDA

**Pan glywaf bobl yn hawlio fod fy ngwrthwynebiad cyhoeddus i ryfel a chyfeiriad imperialaidd adfywiedig polisi tramor yr UD yn anwlatgarol neu'n wrth-Americanaidd mewn rhyw fodd, gwn fod y beirniad yn fwy anwybodus na mi am hanes y weriniaeth hon.**

Mae llawer o bobl yn credu fod y Gwelliant Cyntaf i Gyfansoddiad UDA mewn rhyw fodd yn *rhoi'r* hawl i lefaru ac ymgynnull yn rhydd i ddinasyddion. Mewn gwirionedd, nodwedd fwyaf nodedig y ddogfen hanesyddol hon yw ei bod yn cydnabod ac yn cadarnhau rhyddid llefaru fel *hawl dynol*, cyflwr naturiol pethau, ac *nid* rhodd y llywodraeth.

Pan ddylwedir wrthyf fod rhyfel yn cael ei ymladd yn fy enw i mewn gwledydd pellennig a bod y diniwed yn cael eu lladd i ddiogelu'r hawl yma i mi gartref, byddaf yn cofio aberth a brwydr faith dilëwyr caethwasiaeth yn America, trefnwyr undebau llafur, swffragetiaid, gwrthwynebwyr cydwybodol a gweithredwyr hawliau sifil. Dof i'r casgliad bod mynnu dal i ddefnyddio'r hawl gysegredig hon i siarad yn rhydd yn gyson ac yn egnïol, yn enwedig yn wyneb gwrthwynebiad cymdeithas a llywodraeth, wedi gwneud mwy i ddiogelu'r hawl yma nag y gallai unrhyw faint o rym arfog.

Dyma'r Americaniaid rwyf yn eu dilyn yn falch drwy hanes: y rhai sy'n cydnabod ein dynoliaeth gyffredin ac yn brwydro i ddod â'n cenedl a'i llywodraeth i dderbyn y weledigaeth honno.

**Jack Cohen-Joppa**

**Yn eiriolwr dros garcharorion ac yn ymgyrchydd dros heddwch, mae Jack Cohen-Joppa yn gyd-olygydd (gyda'i wraig, Felice) a chyhoeddwr ers 1980 y cylchlythyr *Nuclear Resister* , cofnod o wrthwynebiad i arfau niwclear a rhyfel sy'n cael ei gyhoeddi i gefnogi gweithredwyr sydd yn y carchar.**

## Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol Dallineb Gweledigaeth 20:20

**Mewn cam a ddisgrifiwyd gan yr hen law o ymgyrchydd o Wersyll Heddwch Womenwith Hill, Helen John fel, i bob pwrpas, "dedfryd o farwolaeth ddiannod ar filiynau dirifedi o fodau dynol diniwed", mae Pwyllgor Dethol Amddiffyn y Llywodraeth Brydeinig wedi cytuno i adael i'r UD ddefnyddio Menwith Hill a Fylingdales yng ngogledd swydd Efrog fel rhan o system amddiffyn taflegrau'r UD.** Er bod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus, bu'r Llywoderaeth mor drahaus â bwrw ymlaen p'run bynnag. Yn ei wrthwynebiad i ddefnyddio safleoedd ym Mhrydain fel rhan o 'Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol' yr UD, dywedodd CND Cymru wrth yr Ymgynghoriad fod 'Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol' yr UD:

~ yn system 'ymosodol' nid 'amddiffynnol' a byddai'n rhoi i'r Unol Daleithau y gallu i daro bron unrhyw wladwriaeth arall, hyd yn oed gyda 'thrawiad cyntaf', heb ofni cael ei tharo yn ôl.

~ Y bydd yn cynyddu'r tebygrwydd o frawychiaeth oherwydd bydd grwpiau llai pwerus o bobl yn teimlo'n ofnus dan fygythiad y system 'amddiffyn'.

~ Y bydd yn gwneud Prydain yn brif darged ar gyfer brawychiaeth neu ar gyfer 'rhagymosodiad' ar ganolfannau'r UD yn Menwith Hill a Fylingdales.

~ Y bydd yn arwain at gynnydd mewn arfau dinistr torfol oherwydd bydd llywodraethau ym mhedwar ban y byd yn teimlo fod rhaid iddynt hwythau gynyddu eu hargofaeth i wrthwynebu tra-arglwyddiaeth yr UD.

~ Yn gam 'Amddiffyn Taflegrau' tuag at sefydlu arfau yn y gofod gan Lywodraeth yr UD. Mae Gweledigaeth 2020 Rheolaeth Gofod yr UD yn rhagweld y bydd yn "dominyddu dimensiwn y gofod o ran gweithgareddau milwrol i amddiffyn buddiannau a buddsoddiadau'r UD gan integreiddio lluoedd y gofod yn allu i ymladd rhyfeloedd ar draws sbectrwm llawn gwrthdaro." (www.spacecom.af.mil/usspace)

~ Yn wastraff arian. Byddai cyfran fechan o'r gwariant ar y 'Rhaglen Amddiffyn Taflegrau' yn helpu i liniaru'r tlodi a'r anghyfiawnder sy'n achosi chwerwder tuag at yr Unol Daleithau a gwledydd eraill yn y Gorllewin.

Fel y nododd Helen John ymhellach: "Ni ellir ystyried fod dominyddu'r blaned er mwyn dwyn olew, cyfoeth mwynol ac asedion dur sy'n perthyn i'r rheini fydd yn dioddef y 'newid llywodraeth' a orfodir arnynt gan fympwy George W. Bush a'i ofalwyr milwrol-diwydiannol, yn cynrychioli gwir deimladau pobl Prydain, UDA nac, yn wir, unrhyw ddinesydd moesol yn ei iawn bwyll unrhyw le yn y byd."

Lle mae ein 'democratiaeth' fondigrybwyll pan mae penderfyniadau sy'n effeithio'r holl fyd yn cael eu gwneud heb yr un ymgais i hyd yn oed ymgynghori â'n cyrff etholedig democrataidd?

**heddweithredu ☮ Mae'r penderfyniad yma a'r system mae'n ei chefnogi yn fygythiad i bobl Cymru, Prydain a'r byd. Sgrifennwch at Tony Blair, Geoff Hoon a'ch ACau a'ch ASau (gweler cysylltiadau ar dud. 16 am gyfeiriadau). Mynegwch eich teimladau wrthyn nhw am y penderfyniad ei hun, a diffyg gweledigaeth llywodraeth Prydain (a'r UD). Am fwy o wybodaeth, cysyllter ag CND Cymru (gweler cysylltiadau), CND Swydd Efrog tel: 01274 730795 neu Ymgyrch Heddwch Menywod Menwith Hill (01943) 468 593 Blwch SP 105, Harrogate, Gogledd Swydd Efrog HG3 2FE.**

## Comin Greenham cofleidio'r gwersyll



**Rhagfyr y 12fed 1982, pan amgylchynodd miloedd ar filoedd o fenywod y Gwersyll Taflegrau Cruise Americanaidd yng Nghomin Greenham, oedd y tro diwethaf i mi wisgo wellingtons.** Roedd rhai wedi rhybuddio y gallai fod yn lleidiog mewn mannau o gwmpas y ffens. Roedd yn gysur cael Harold Moore ger llaw unwaith eto. Fel hen gyn-filwr, roedd yn adnabod bathodynnau'r holl filwyr oedd yn bresennol, p'run ai'n gwarchod y ffens neu i fyny ar eu tyrau gwylio, a byddai bob amser yn syndod iddynt pan fyddai'n eu cyfarch yn wybodus ac yn garedig.

Drwy gydol y dydd, roeddem yn dal i symud i'r chwith wrth i fwyfwy o bobl ymuno â'r dorf. Daeth dwy wraig gyfagos mewn siwtiau brethyn, twinsetiau a pherlau, o hyd i dwll bach yn y ffens, a mynd ati i ddatod rhan fawr ohono, gan egluro wrth y milwyr nad oedden nhw am ddod mewn, ond am wneud twll digon mawr i'r milwyr allu dod allan, a dianc rhag bywyd mor ddiflas.

Gyda drymiau'n curo, cododd bonllef fawr pan ddaeth y neges ein bod wedi cwblhau'r cylch naw milltir – roeddem wedi cofleidio'r gwersyll – llwyddiant cofiadwy a gwefreiddiol.

I ffwrdd â ni i chwilio am ein bysys adref. Doedd dim golwg ohonyn nhw. Roedd yr heddlu, yn ddiofal neu'n bwrpasol, wedi eu symud, ond i ble? Erbyn i ni ddod o hyd iddyn nhw, roedd rhai ohonom wedi cerdded un filltir ar ddeg a hanner y diwrnod hwnnw – taith go anghysurus os oeddech chi'n gwisgo wellingtons.

Ar ugainmlwyddiant y gamp anhygoel hon, daeth menywod ynghyd yn Greenham unwaith eto i ddathlu'r digwyddiad. Yng Nghaerdydd, cynhaliwyd cwrdd coffa ar gyfer rhai na allent deithio mor bell. Am hanner dydd ar yr un diwrnod, ymgasglodd menywod yng ngardd y Deml Heddwch i dystio fod ysbryd Greenham yn dal yn fyw. Siaradodd Katrina Gass am atgofion am yr amgylchyniad gwreiddiol a mynegodd benderfyniad menywod i gynnal a chynyddu eu cyfraniad unigryw i'r ymgyrch dros heddwch byd-eang. O'r pwys mwyaf oedd y ffaith y daeth cenhedlaeth newydd o Fenywod dros Heddwch i ymuno ag ymgyrchwyr gwreiddiol Greenham.

**Jeanne Crabb**

# Ymchwiliad Cyhoeddus Cais Cynllunio Atomfa Trawsfynydd

**Cynhaliwyd yr Ymchwiliad yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2002 yn Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth.**

**Y Cais Cynllunio**

**1. Storfa Gwastraff Lefel-Canolig**

Bwriedir defnyddio'r Storfa hon i gyfuno'r holl wastraff sydd yn y mân storfeydd a "bydd cynllun y storfa yn sicrhau diogelwch y deunydd hyd at y cyfnod pan fydd y Gadwrfa Genedlaethol yn bodoli."

Hyd y storfa fydd 91 medr, ei lled yn 34 medr a'i huchder yn 91 medr.

"Bydd y storfa'n cynnwys gofod ychwanegol i ganiatáu ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y pecynnau a gynhyrchir yn Nhrawsfynydd.

**2. Y 'Storfa Ddiogel'**

Bwriedir gostwng uchder adeiladau'r adweithyddion nes eu bod tua 20 medr yn is. Bydd 30,000 medr ciwbig o wastraff ar ôl dymchwel yr adeiladau a bydd hwn yn cael ei storio ar y safle. Newidir siâp y tô i "adlewyrchu natur donnog y tirlun." Gorchuddir y muriau gyda llechi Ffestiniog a "phaneli dur di-staen lliwiedig."

Yn wahanol i Ymchwiliadau Cyhoeddus eraill ni chofnodwyd, yn swyddogol unrhyw sylwadau, cwestiynau nac atebion i'r croesholi ac ni chafwyd unrhyw wybodaeth drwy'r post am yr amserlennu.

Roedd pawb i fod wedi cyflwyno eu tystiolaeth ar bapur erbyn canol Hydref ond gallai unrhyw un gyflwyno sylwadau llafar yn yr ymchwiliad.

Nid oedd y Neuadd yn addas o bell ffordd o rhan sain a hwylustod. Gosodwyd byrddau ar ffurf betryal neu hirsgwar mawr yn hanner blaen y neuadd. Roedd bwrdd bychan iawn ar ongl rhwng bwrdd yr arolygwyr a BNFL Magnox i bob unigolyn rhoi tystiolaeth.

Eisteddai cynrychiolwyr y Mudiadau yn y gynulleidfa sef pedair rhes yng nghefn y neuadd ac yr oedd angen cael microffon symudol ar gyfer unrhyw gwestiwn.

Bu llawer o gerdded yn ôl ac ymlaen ar lawr pren yn atseinio o dan draed. 'Roedd llawer o sylwadau rhwng y byrddau yn rhy dawel i'r gynulleidfa eu clywed.

Rhoddodd Brian Woollam, Keith Spooner (Rheolwr y safle), Sheila Twidle, Patrick Chorlton a Roger Cockle dystiolaeth ar ran BNFL Magnox a chafodd y tri cyntaf eu croesholi'n fanwl.

Aled Sturkey, y Prif Swyddog Cynllunio, ymddangosodd ar ran Parc Cenedlaethol Eryri a dywedodd nad oeddynt yn gwrthwynebu'r Cais Cynllunio ond eu bod am weld amod bod y gwastraff lefel canolig yn cael ei symud ymhen 25 mlynedd neu'n gynt os byddai storfa 'genedlaethol' wedi ei pharatoi. Dylid adolygu'r sefyllfa bob 5 mlynedd meddai.

Dywedodd Iwan Evans fod Cyngor Gwynedd yn rhoi cefnogaeth ochelgar ond byddai'n well gan y Cyngor weld ateb cynnar a chael gwared â'r gwastraff o'r Parc yn llwyr.

Ar ran Cyngor Cymuned Trawsfynydd dywedodd y Cynghorydd Tom Ellis raid gwneud rhywbeth i'w gadw'n saff oherwydd nad oes unlle iddo fynd.

Yn ystod yr wythnos olaf yr HSE oedd yn rhoi tystiolaeth ac i danlinelli ein barn ni bod yr ymchwiliad hwn yn gosod cynsail i'r hyn fydd yn digwydd ar bob safle Magnox ym Mhrydain.

Dr Clive Williams a Colin Hardman oedd yn ymddangos ar ran Asiantaeth yr Amgylchedd a bu holi manwl arnynt ynglyn â'r tir llygredig sydd ar y safle a'r sefyllfa ynglyn â'r nentydd a'r llyn a'r cyfrifoldeb o'i lanhau a chynnal yr argaeau.

Cyflwynodd Hugh Richards ar ran Cymdeithas Wrth-Niwclear Cymru a Max Wallis ar ran Cyfeillion y Ddaear adroddiadau llawn a manwl gydag ôl ymchwil mawr arnynt cawsant eu croesholi yn llym. Mae'n bosibl mai'r graen ar eu gwaith achosodd i fargyfreithwyr BNFL Magnox geisio eu pardduo wrth wneud eu datganiad cloi.

Rhoddwyd adroddiadau mwy cyffredinol gan Rod Stallard ar ran y CND Cymru a Nesta Wyn Jones a Deilwen M. Evans ar ran CADNO (Cymdeithas Atal Datblygiad Niwclear). Roedd CADNO yn awyddus i'r arolygydd sylweddoli cyn lleied o wybodaeth o bwys sy'n cael ei gyflwyno yn y Pwyllgor Cyswllt Lleol.

Bydd yr Arolygwr yn ystyried y dystiolaeth ac yn gwneud ei argymhellion i'r Arolygiaeth Gynllunio yn y Cynulliad Cenedlaethol ac i Adran Fasnach a Diwydiant Llywodraeth San Steffan ddiwedd Chwefror neu ddechrau Mawrth.

**Deilwen Evans CADNO**

# Gweithredu Ddiarfogi yn yr Iseldiroedd

Cafodd Barbara Smedema o'r grwp gweithredu di-drais, Peace Action Camp, ei restio gan heddlu milwrol yr Iseldiroedd mewn maes awyr NATO yn Vokel yn ne'r Iseldiroedd yn gynnar ym mis Chwefror. Llwyddodd Barbara i fwrw tair dysgl gyfathrebu oddi ar fyncar cyfathrebu Americanaidd; dwedodd ei bod yn gweithredu i brotestio yn erbyn yr arfau niwclear yr honnir fod NATO yn eu cadw yn y maes awyr.

Meddai Barbara:

*"Rhaid dinistrio peiriant rhyfel yr UD, y dwrn dur y tu ôl i bolisi economaidd America. Ar hyn o bryd, mae miloedd o blant yn marw bob dydd oherwydd tlodi.*

*Byddai rhoi bwyd, dur yfed a lloches i holl bobl y byd yn costio $0.7 biliwn. Bob dydd, mae $2 biliwn y dydd yn cael ei wario ar arfau ledled y byd. Rhaid i'r sefyllfa wallgof yma ddod i ben. Er mwyn cychwyn arni, cyflawnais fy ngweithred ddiarfogi yn Vokel heddiw. Dwi ddim yn fy nhwyllo fy hun y gallwn atal y peiriant rhyfel yma, ond dwi am arddangos rhywfaint o obaith a ffydd y gall pethau fod yn wahanol yn y byd hwn. Dim Rhyfel yn Iraq! Mae gennym oll y puer i ddiarfogi!"*

**Am fwy o wybodaeth cysyllter â: Ploegscharen@yahoo.com neu CND Cymru (gweler y cysylltiadau)**

## Cymru gynaliadwy

# Ymgynghori, Cynadledd, Anwybyddu?

**Mae ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy yn rhan o gyfansoddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, diolch i'r gofyniad yn Neddf Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynulliad yn dweud ei fod yn gweithio i greu Cymru gynaliadwy, gynhwysol a chydradd drwy gynllun gweithredu wyth-pwynt. Dau o'r rhain yw:**

* Datblygu ffyrdd cynaliadwy o gynhyrchu ynni a gwneud defnydd mwy effeithiol o ynni.
*Datblygu a gweithredu polisïau cynaliadwy ar gyfer lleihau a rheoli gwastraff (sydd, er na chyfeirir at hynny, yn cynnwys gwastraff niwclear, a fydd yn fygythiad marwol i genedlaethau i ddod am filoedd o flynyddoedd).

Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi galluogi'r Cynulliad i helpu i dalu am nifer o Gynadleddau lle gallodd mudiadau ac unigolion drafod a hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yng Nghymru a dylanwadu ar y broses benderfynu ar bob lefel o lywodraeth.

### Dod o Hyd i'n Lleisiau I (DOLI1)

Denodd y cyntaf o'r cynadleddau hyn, 'Dod o Hyd i'n Lleisiau 1', ym mis Mawrth 1999, gynrychiolwyr o fwy na 200 o fudiadau. Roedd naw Aelod o'r Cynulliad yn bresennol, gan gynnwys Sue Essex, Gweinidog yr Amgylchedd.

Roedd yr adran yn adroddiad y Gynhadledd ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn cynnwys y casgliadau a ganlyn:

*Delio â gwaddol pwer niwclear yw'r her fwyaf i ymrwymiad y Cynulliad i ddatblygiad cynaliadwy.
*Mae egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' yn golygu fod rhaid i'n cenhedlaeth ni glirio'r llanast mae'n cenhedlaeth ni wedi ei greu.
*Dylid datgan fod Cymru'n wlad ddi-niwclear fel datganiad clir a gonest o fwriad ar sail amgylcheddol, foesol a dyngarol.



Dyma safbwynt CND Cymru, Cynghrair Wrth-niwclear Cymru a llawer o fudiadau gwyrdd eraill erioed.

### Dod o Hyd i'n Lleisiau II (DOLI2)

Yn ei rhagair i adroddiad Dod o Hyd i'n Lleisiau II, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2000, sgrifennodd Sue Essex: "Fel gwleidydd, gwn yn iawn fod mwy na 400 o gynrychiolwyr DOLI yn cadw llygad barcud ar y modd y mae llywodraeth ar bob lefel yn ceisio hyrwyddo democratiaeth a chynaliadwyedd."

### Cymru a'r Byd

Fel paratoad ar gyfer Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy, cynhaliwyd Cynhadledd Cymru a'r Byd yng Nghaerdydd ym mis Ebrill 2002. Yn ei hanerchiad, ni ddwedodd Sue Essex air am agwedd Llywodraeth y Cynulliad tuag at buer niwclear neu wastraff niwclear na chynlluniau i ddelio â nhw.

Yn ddiweddarach y bore hwnnw, yn y seminar ar 'Ynni ac Effeithlonrwydd Ynni', codwyd cwestiwn peryglon cynhyrchu pwer niwclear, fel a welwyd yn Chernobyl a thrychinebau eraill, y cysylltiad ag arfau niwclear, y waddol beryglus y byddem yn ei gadael i'r dyfodol, ac ansefydlogrwydd cynhenid y project anfad yma.

Ymateb y Cadeirydd, Ron Davies, oedd dweud fod datblygiad ffynonellau ynni adnewyddadwy yn mynd rhagddo mor araf efallai y byddai'n rhaid i ni ddefnyddio pwer niwclear eto er mwyn cyrraedd y nod a bennwyd ar gyfer lleihau faint o garbon deuocsid sy'n cael ei ryddhau i'r awyrgylch. Lleisiodd y cyfranogwyr eu protest ar unwaith. Aethpwyd i bleidlais, a gwrthodod y seminar bwer niwclear yn unfrydol.

Yn y prynhawn, anerchodd Rhodri Morgan y Gynhadledd, ond ni feiddiodd yngan y gair 'n'. Yn ystod y sesiwn cwestiwn ac ateb wedi hynny, ailgodwyd y cwestiwn cynharach am beryglon pwer niwclear. (Dyma'r unig gwestiwn a dderbyniodd gymeradwyaeth y Gynhadledd.) Atebodd Rhodri Morgan drwy ddefnyddio'r un ddadl â Ron Davies, bron air am air. **(Pwy, tybed, sy'n sgrifennu eu sgriptiau nhw?)**

Yn y rhagarweiniad i Adroddiad y Gynhadledd a gyhoeddwyd wedi hynny, sgrifennodd Rhodri, "Gyda chymorth y cynrychiolwyr, byddaf yn dwyn syniadau ymarferol ger bron yr Uwchgynhadledd ar sut i adeiladu byd mwy cynaliadwy". Ymddengys i'r cynrychiolydd <u>hwn</u> gael llwyddiant bychan. O'r pum prif gasgliad i fynd i Johannesburg, yn ymwneud ag Ynni ac Effeithlonrwydd Ynni, un oedd: ***Gwrthod pwer niwclear a gwireddu'r posibiliadau sylweddol ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru.***

Gosododd y gynhadledd genedlaethol ddilynol, 'Cynhadledd tuag at Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy – Dadleuon, Penderfyniadau, Cyfarwyddyd' (Abertawe, 4ydd Rhagfyr 2002) yr agenda parthed sut i symud ymlaen gyda datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn y pum mlynedd nesaf. Dilynodd y Gynhadledd hon yr un patrwm â chynt: "Mae Cymru'n arwain y byd o ran datblygu cynaliadwy - bla, bla". Dim gair am niwcs!

Yn y sesiwn Newid Hinsawdd ac Ynni, a redwyd yn llawdrwm gan ddau swyddog Cyngor, doedden nhw na neb o drefnwyr y digwyddiad, i bob golwg, ddim yn ymwybodol o gynhadledd Caerdydd, a'r ffaith ei bod wedi cyhoeddi adroddiad gydag argymhellion nid yn unig ar gyfer y byd ond ar gyfer Cymru hefyd. Roedd y drafodaeth yn cychwyn o 'ground zero'. Trafodwyd mater pwer niwclear fel pwnc 'dadleuol', heb benderfyniad clir gan y sesiwn. Os cyhoeddir adroddiad, bydd yn ddiddorol darllen pa gyngor a roddir i'r Cynulliad.

Roeddem yn meddwl ein bod wedi 'Dod o hyd i'n Lleisiau'. Ymddengys y bydd rhaid i ni weiddi'n uwch byth. **Peidiwch ag anghofio! – uchelgais junta Bush yw 'cyffwrdd ag wyneb Duw' gyda phwer niwclear ac arfau niwclear yn y gofod** – ac mae Hoon wedi cytuno!

**George Crabb.**

# Yr Achos yn Erbyn Adweithyddion Niwclear Newydd

Ers yr Etholiad Cyffredinol Prydeinig diwethaf, mae gwybodaeth ddryslyd ac anghyson wedi bod yn cylchredeg am gynlluniau'r llywodraeth ar gyfer adweithyddion niwclear newydd. Mae papurau cefndir mewnol ar bolisi, sydd wedi dod i glawr yn answyddogol, yn awgrymu fod yr Adran Fasnach a Diwydiant am ei gwneud hi'n haws i orsafoedd niwclear dderbyn caniatâd cynllunio, a phrysuro'r holl broses er mwyn i ddyluniadau newydd allu cael eu trwyddedu'n gyflymach ac yn rhatach. Mae ffyrdd o wanhau gwrthwynebiad y cyhoedd i bwer niwclear yn cael eu trafod hefyd.

Hyd yn oed cyn i Arolwg Ynni'r Llywodraeth orffen ei waith, haerodd Cadeirydd y grup llywio, y gweinidog ynni, Brian Wilson, sy'n cefnogi ynni niwclear yn agored, y byddai angen gorsafoedd niwclear yn ei farn ef, er mwyn i Brydain gyflawni ei hymrwymiadau Kyoto i leihau nwyon tw gwydr. Yn sgîl ffiasgo ddiweddar Ynni Prydeinig, mae wedi cymedroli ei eiriau, ond mae'n dal i awgrymu y mae y Papur Gwyn ar Ynni sydd wedi cael ei gyhoeddi 'yn cadw'r drws ar agor i'r opsiwn niwclear'.

Mae pleidwyr pwer niwclear mewn cyfyng gyngor. Daeth yr Arolwg Ynni i'r casgliad y byddai rhaid i unrhyw gam i hyrwyddo pwer niwclear fod yn dderbyniol i'r cyhoedd yn gyffredinol. Y broblem yw na allwch symud ar fyrder i adeiladu adweithyddion sydd heb eu profi, sy'n hepgor dyfeisiau diogelwch, a disgwyl i'r cyhoedd eu derbyn. Bydd unrhyw ymgais i ymyrryd â'r Arolygaeth Gorsafoedd Niwclear, neu i gwtogi ar ymchwiliadau cyhoeddus, yn dwysáu sgeptigiaeth ac ofnau'r cyhoedd.

Bydd adweithyddion niwclear newydd yn methu cyflawni amcanion y llywodraeth o fod yn gystadleuol, yn fforddadwy, yn gynaliadwy ac yn gyfrwng diogelu'r cyflenwad. Mae pwer niwclear yn chwerthinllyd o ddrud. Fe hoffai'r diwydiant adeiladu hyd at ddeg adweithydd newydd, ond byddai archebu cyfres o adweithyddion Westinghouse sydd â dyluniad nas profwyd ac nas adeiladwyd erioed o'r blaen yn hunan-laddiad masnachol.

**Mae gan y diwydiant niwclear ragolygon gorffwyll o optimistaidd a record economaidd druenus.** Mae'r argyfwng ariannol diweddar gydag Ynni Prydeinig yn ein hatgoffa na allwn gredu'r ffigurau a osodir ger bron gan y diwydiant niwclear am rwymedigaethau cyfredol neu berfformiad yn y dyfodol. Mae BNFL ac Ynni Prydeinig yn credu y gall y dyluniad adweithydd AP1000 arfaethedig, sy'n seiliedig ar yr AP600 llai o faint na phrynodd neb mohono am 17 flynedd, gael ei adeiladu o fewn tair blynedd, ac y bydd 'ar gael' o'i dyddiad cychwyn arfaethedig am 90% o'r amser drwy gydol oes o 60 mlynedd. Y gwir amdani yw fod adweithyddion Westinghouse ledled y byd wedi cyrraedd 'ffactor llwyth' o 58% o'u dyddiadau cychwyn arfaethedig, does dim un wedi gweithredu am fwy na 34 blynedd, ac mae wyth wedi cael eu cau.

**Mae'r diwydiant niwclear yn anfodlon ymdrin â gwastraff niwclear na datgymalu hen adweithyddion.**
Mae gwastraff niwclear yn pentyrru ar safleoedd ledled Prydain. Mae llawer ohono mewn cyflwr 'gwarthus' [1]. Gwaddol pwer niwclear yn problem lanhau anferthol ac anhydrin, a diwydiant sydd am roi baich y gorchwyl o ddatgymalu adweithyddion ar ysgwyddau cenedlaethau i ddod. Awgrymwyd yn bryfoclyd iawn na fyddai mwy o wastraff niwclear yn gwneud llawer o wahaniaeth. Am ei bod hi'n aneconomaidd ailbrosesu tanwydd hesb ac yn annerbyniol o safbwynt amgylcheddol, byddai'n rhaid storio'r holl danwydd hesb o orsafoedd PWR newydd ar y safle, am gyfnod amhenodol.

Mae pob gorsaf niwclear yn agored i'r perygl o ddamweiniau ac ymosodiadau gan frawychwyr.
Dilewyd llawer o systemau diogelwch o'r adweithydd AP1000 i arbed arian. Mae'n hepgor nodweddion diogelwch oedd yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer Sizewell B, mae'n cynnwys elfennau newydd sydd heb eu profi, ac mae'n tramgwyddo egwyddorion sylfaenol trwyddedu ym Mhrydain. Mae digwyddiadau Medi 11eg 2001 wedi ei gwneud hi'n hanfodol diogelu pob adweithydd niwclear a storfa wastraff rhag brawychwyr, efallai drwy eu claddu dan ddaear. Gwrthodwyd y dyluniad AP600 gan y Ffindir am nad yw'n 'ddiogel rhag awyrennau'. Mae cyfrinachedd ynglwn â threfniadau cynllunio argyfwng 'estynedig' o gylch safleoedd niwclear Prydain yn cynyddu amheuaeth y cyhoedd ynglwn ag ynni niwclear.

**Cefnogwch Ynni Adnewyddadwy a Chadwraeth Ynni.**
Os mai nod Polisi Ynni yw lleihau faint o garbon deuocsid sy'n cael ei ollwng i'r aer, dylid gwneud hynny drwy'r dulliau mwyaf cost-effeithiol. Mae gwario ar gadwraeth ynni o leiaf bedair gwaith yn fwy cost-effeithiol na gwario ar orsafoedd niwclear newydd, gyda'r fantais fod yr arian a arbedir yn cael ei ryddhau at ddefnydd mewn rhannau eraill o'r economi, yn hytrach na chael ei gloi mewn gorsafoedd sydd yn mynd i fod yn faich aruthrol yn y dyfodol.

Mae cymhwyso'r egwyddor ddatblygu gynaliadwy yn golygu fod rhaid i ni ddefnyddio ein deall i leihau nwyon tw gwydr heb roi hyd yn oed mwy o faich gwastraff ymbelydrol a mwy fyth o ddefnyddiau niwclaer mewn cylchrediad ar ysgwyddau cenedlaethau i ddod.

Ym 1987 y dywedodd Comisiwn Brundtland [2] mai ynni adnewyddadwy: *'ddylai fod yn sail i'r strwythur ynni byd-eang yn ystod yr 21ain ganrif'.*

Rydym yn debycach o sicrhau cyflenwad cyson, gyda llai o lwfans cynllunio a fydd yn arbed arian, drwy adeiladu llawer o unedau cynhyrchu bach a fydd yn cynhyrchu mewn byr amser, nag ychydig o rai anferth. Nid yw ffynonellau ynni adnewyddadwy yn dargedau da i frawychwyr, ac maent yn ddelfrydol o ran sicrhau dyfodol ynni ar seiliau cadarn.
Mae gan Greenpeace dystiolaeth o gefnogaeth gref ymhlith y cyhoedd i ynni adnewyddadwy a chadwraeth ynni; roedd yn well gan 72% o ymatebwyr ynni adnewyddadwy na'r dewis niwclear, a chadarnhawyd hynny gan ymgynghoriad ynni yr Adran Fasnach a Diwydiant ei hun.
P'run ai bod y llywodraeth yn cefnogi cenhedlaeth newydd o adweithyddion ai oeidio, mae'n amlwg eu bod wedi bod yn chwarae â'r syniad, ac efallai y byddant yn dychwelyd ato. Rhaid i ymgyrchwyr yng Nghymru barhau i fod ar eu gwyliadwraeth a pharhau â'u gwrthwynebiad disyfl i bwer niwclear, a'u cefnogaeth i brojectau ynni adnewyddadwy lleol.

**Hugh Richards**

[1] 'Nuclear stores "on verge of exploding"' Mark Townsend, *Observer*, Sul Mehefin 30, 2002

[2] Comisiwn y Byd ar yr Amgylchedd a Datblygu, *Our Common Future*, Gwasg Prifysgol Rhydychen, Rhydychen 1987

**heddweithredu** ☮ **Os ydych am ymgyrchu yn erbyn pwer niwclear yng Nghymru, neu am fwy o wybodaeth, cysyllter â Hugh Richards, Cynghrair Wrth-niwclear Cymru Tel/Ffacs: 01982 570362 ebost: hughrichards@gn.apc.org , neu Rod Stallard, CND Cymru (01550) 750 260 heddwch@nantgaredig.freeuk .**

# cysylltiadau cnd cymru

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP (01978) 311 564
**vice chairsis-gaderyddion**
Rod Stallard (01550) 750 260
**gogledd cymru**
cysyllt: David Bradley (01978) 311 564
**y canolbarth**
Olwen Davies (01970) 611 994
**de cymru**
Ray Davies (029 20) 889 514
**aelodaeth &aelodau cysylltiol:**
Brian Jones, 72, Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN
**masnachu**
Jan Henderson
(01792)830 330
**trysorydd:**
Jean Bryant, 16,
Ty'n y Cymer Close,
Porth,Y Rhondda CF39 9DE

**golygydd heddwch ac ysgrifenydd cyffredinol:**
Jill Stallard,
Nantgaredig,Cynghordy,
Llanymddyfri SA20 0LR
(01550) 750 260
heddwch@nantgaredig.freeuk.com

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gymorth i'w gynnig? Cysylltwch â'ch is-gadeirydd CND Cymru agosaf da chi, neu'r ysgrifennydd cyffredinol.**

# cysylltiadau lobïo

**Tony Blair A.S.,** 10, Downing Street, Westminster Llundain SW1A 2AA
ffacs: 0207 925 0918
ebost:remote-printer.Tony.Blair/DowningSt@442079250918.iddd.tpc.int
**Geoff Hoon A.S.,** Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, MoD, Maoin Building,Llundain SW1A 2HB
**Jack Straw A.S.,**Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Tramor a'r Gymanwlad, Y Swyddfa Drammor a Chymanwlad, Whitehall, Llaundain SW1A 2AH
**Eich A.S.,**Ty'r Cyffredin, Westminster, Llundain SW1 0AA
**Eich A.C.,**Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
**Eich A.S.E.,** Y Senedd Ewriopaidd, Wiertz-Straat, B-1047 Brwsel (stamp37c)
**Aelodau'r Cynulliad:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ty Crucywel, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA ebost: ee: dafydd.wigley@wales.gov.ukfor

## ANGEN GWIRFODDOLWYR!

### Eisteddfod yr Urdd

Mae ar CND Cymru angen gwirfoddolwyr i helpu ar ein stondin yn Eisteddfod yr Urdd ym Mharc Margam, Port Talbot, 26ain – 31ain o Fai 2003 ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod, ger y Trallwng, 2il – 9fed Awst 2003. Mae arnom angen pobl i siarad â'r cyhoedd, gofyn iddyn nhw i arwyddo deisebau, a gwerthu bathodynnau a nwyddau eraill; am wneud hynny, cewch docyn am ddim i'r Steddfod am y dydd, a rhywfaint o amser rhydd i grwydro'r Maes a mwynhau'r brifwyl. Os oes gennych ddiddordeb, ffoniwch Jan Henderson neu Brian Jones ar 01792 830330.




### Glastonbury

Mae ar CND Cymru angen gwirfoddolwyr i helpu yng Nguyl Glastonbury ar y 27ain – 29ain Mehefin 2003. Mae arnom angen pobl i redeg stondin cadw eiddo dan glo, lle gall ymwelwyr â'r uyl adael eu heiddio'n ddiogel gan wybod y bydd yn dal yno pan ddont yn ôl. Bydd y dyletswyddau'n golygu rhywfaint o waith corfforol, llenwi ffurflenni, siarad â'r cyhoedd, gofyn iddyn nhw i arwyddo deisebau, a gwerthu bathodynnau, ac yn y blaen. Mae'n waith eitha caled, ond mae'n hwyl fawr gyda thîm gwych o weithwyr, a phan na fyddwch ar ddyletswydd, gallwch fwynhau'r uyl! Byddwn yn gofyn i chi am bris y tocyn o flaen llaw, fel ernes, a fydd yn cael ei ad-dalu i chi ar ôl yr uyl. **Os oes gennych ddiddordeb, ffoniwch Jan Henderson neu Brian Jones ar 01792 830330 neu ar ebost: brian.jones@nptc.ac.uk**

# Dyddiadau Dyddiadur

qui tacit consentit
*mae tewi'n gydsynio*

**Mawrth 22ain ABERYSTWYTH Gweithred dros Heddwch Rali, Siaradwyr a Gweithdai BYDDWCH YNO!**
Cysyllter ag: Olwen Davies (01970) 611 994 Laura Jones: 07833 531 711 neu Medi James: (01970) 611 034

**Mawrth 22ain USAF FAIRFORD Gwrthdystiad Cenedlaethol** Galwyd gan Bristol-Stop-The-War-Coalition ebost james@venables.plus.com www.gwi.org.uk 07768 418 960

**Mawrth 22ain MENWITH HILL Swydd Efrog TWYLLO'R GWERSYLL!** Cysyllter â www.now-peace.org.uk CND Swydd Efrog: (01274) 730 795

**Mawrth 22ain BANGOR Diwrnod Astudio Celf a Phensaernïaeth Islamaidd** Yr Hen Goleg, Ffordd y Coleg, Bangor Uchaf. Cysyllter ag Antonia (01248) 355 029

**Ebrill 3ydd CAERDYDD Henry Richard Apostol Heddwch (1812 – 1888) Digwyddiad Coffa** Cysyllter â Clare Sain Ley Berry (029) 20 821 055 claresainleyberry@wcia.org.uk

**Ebrill 5ed ABERYSTWYTH 11am Cyfarfod Blynyddol CND Cymru** Capel y Morfa, Stryd Portland. Croeso i'n holl aelodau a chynrychiolwyr grwpiau cysylltiedig. Cysyllter â'r Ysgrifennydd Cenedlaethol: 01550 750 260

**Ebrill 5ed ABERYSTWYTH 2pm CYFARFOD CYHOEDDUS CND Cymru Croeso i Bawb** Cysyllter ag CND Cymru: 01550 750 260

**Ebrill 19eg CAERDYDD 11.30am Côr Cochion Sadwrn y Pasg Cân i CND Cymru. Angen dosbarthwyr taflenni a chymorth. Cysyllter â Ray Davies: (02920) 889 514**

**Ebrill 22ain FASLANE YR ALBAN Y Gwarchae Gwirioneddol Fawr** I ATAL TRIDENT www.Tridentploughshares.gn.apc.org neu 0845 45 88 366. Cysyllter â 02920 889 514 am lifft o Gaerdydd.

Mai 17eg **Cyngor CND Cymru** Lleoliad i'w gadarnhau. Am fwy o wybodaeth: Cysyllter ag Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru: 01550 750 260

**Mai 24ain BYD-EANG Diwrnod Diarfogi Rhyngwladol y Menywod**

**Gorffennaf 12fed 11.00am Cyngor CND Cymru** Lleoliad i'w gadarnhau. Am fwy o wybodaeth: Cysyllter ag Ysgrifennydd Cenedlaethol CND Cymru: 01550 750 260

# cnd cymru

## taflen wybodaeth heddwch ar weithredu

gwanwyn 2003

# DDIM YN FY ENW I !

*"Rhaid inni weithredu yn unol â'n cydwybod a gwrthwynebu fel petai'r dyfodol yn dibynnu arno –oherwydd mae YN dibynnu arno. Rhaid inni ysbrydoli, trefnu a helaethu gwrthwynebiad gwleidyddol ar hyd a lled y gymdeithas – yn ein mannau byw a gweithio, yn y mannau lle'r awn i'r ysgol ac y magwn ein plant, lle y chwaraewn a lle y gweddïwn…"*

**Er gwaethaf y tonnau anferth o brotestiadau yng Nghymru a ledled y byd, mae'r rhyfelgwn yn gwrthod gwrando ar y werin bobl. Rhaid inni adeiladu ar sail popeth a wnaethom hyd yn hyn a dwysáu ein hymdrechion i atal ymosodiad ar Iraq. Diben y daflen hon yw hyrwyddo mynediad i rai o'r offer a allai helpu ac ysbrydoli unigolion a grwpiau yng Nghymru i ddyfalbarhau yn ein gwrthwynebiad i'r rhyfel.**

## Pam yr ydym yn gwrthwynebu ymosodiad ar Iraq

**Byddai rhyfel yn erbyn Iraq yn effeithio'n ddinistriol drychinebus ar fywyd pobl gyffredin yn Iraq a'r gwledydd cyfagos, yn ogystal ag aelodau'r lluoedd arfog a'r amgylchedd yn Iraq a gweddill y byd.**

* Bydd rhyfel rhagataliol yn gosod cynsail ryngwladol beryglus. Mae llywodraethau'r UDau a Phrydain wedi dewis ail-ddehongli'r sail gyfreithiol dros ryfela yn 'hunanamddiffynol', gan newid natur 'deddfau rhyfel', peri dwysâd peryglus yn y defnydd o drais neu'r bygythiad o'i ddefnyddio, a pheryglu dyfodol y gyfraith ryngwladol a chytundebau cydwladol.
* Nid yw meddiant ar arfau torf-ddinistriol yn sefydlu achos dros lansio rhagymosodiad ar Iraq. Petai felly, gellid defnyddio'r un ddadl i gyfiawnhau rhagymosodiadau ar Israel, Pakistan, India, Gogledd Korea, Rwsia, Ffrainc a Tseina. A gallai gwledydd eraill ddefnyddio'r un ddadl i ymosod ar wledydd Prydain a'r Unol Daleithiau.
* Does dim cysylltiad mewn gwirionedd rhwng rhaglen arfau Iraq a digwyddiadau 11eg Medi 2001.
* Plant, benywod a dynion cyffredin Iraq fydd prif ddioddefwyr unrhyw ymosodiad ar Iraq dan arweiniad Washington ac unrhyw ryfel cartref a achosir ganddo.
* Byddai ymosodiad ar Iraq yn ansefydlogi llawer o wledydd eraill yn y Dwyrain Canol ac yn gadael effeithiau erchyll ar yr amgylchedd ac ar iechyd pobl yn y tymor hir yn y Dwyrain Canol ac ardal ehangach o lawer.
* Nid arfau torf-ddinistriol fyddai'r rheswm sylfaenol go iawn dros y fath ymosodiad eithr perchnogaeth y cronfeydd olew. Pa wlad – Iran, Syria ynteu Arabia Sawdi hyd yn oed, fyddai nesaf? Mae llywodraethau Washington a San Steffan wedi datgan eu parodrwydd i ddefnyddio arfau torf-ddinistriol.
* Byddai pob ochr yn talu'n ddrud – rhwng y gwariant ar arfau, ariannu cymorth i'r boblogaeth yn ystod y cyfnod dilynol o feddiant milwrol, a'r ail-adeiladu yn sgil y llanast economaidd.
* Byddai'n sbarduno mwy o weithredoedd terfysgol. Heb wirioneddol gyfiawnder, ni fydd gwirioneddol heddwch.
* Bydd unrhyw ryfel o'r fath a gefnogir gan lywodraeth San Steffan yn diystyru ewyllys mwyafrif y bobl ledled gwledydd Prydain.
* Nid yw rhyfel yn ffordd amgylcheddol gynaliadwy o ddatrys anghydfod, ac mae'r paratoadau ar gyfer rhyfel yn achosi dirywiad amgylcheddol yn y gwledydd hynny sy'n ymbaratoi i ymosod ar Iraq, wrth i arfau gael eu cynhyrchu a'u profi a'r defnyddwyr gael eu hyfforddi.
* Byddai unrhyw 'gytundeb' gan Gyngor Diogelwch y CU oedd i gefnogi'r rhyfel yn ffrwyth bygwth a llwgrwobrwyo.




ffotograff: guto ap gwynfor

## Beth yr ydym am ei weld

Nid yw CND Cymru'n cefnogi llywodraeth Iraq na Saddam Hussein, ac rydym yn condemnio pob terfysgaeth. Credwn ni na ellir sicrhau heddwch yn y tymor hir ond trwy fuddsoddi'n enfawr mewn diplomyddiaeth go iawn, a chryfhau pobl Iraqi a'u gwahanol gymunedau drwy godi'r sancsiynau anfilwrol yn erbyn eu gwlad. Mae angen i'r gymuned fyd-eang weithio ar y cyd trwy gyfrwng Cenhedloedd Unedig diwygiedig i fynd i'r afael â bôn cwestiwn rhyfel ac anghyfiawnder. Dylid cynnal arolygiadau i ddarganfod arfau mewn ffatrïoedd a safleoedd eraill ym mhob gwlad sydd yn meddu, neu y drwgdybir ei bod yn meddu ar arfau torf-ddinistriol. Dylid cymryd mesurau go iawn yn arwain at ddiarfogi llawn diffuant unwaith ac am byth yn yr holl wledydd yn y byd sydd ag arfau torf-ddinistriol.

**Coaliswn Cymru yn Erbyn Rhyfel/CND Cymru**

**ABERYSTWYTH**
**DIWRNOD CENEDLAETHOL**
**GWEITHREDU DROS HEDDWCH**

**Mawrth 22 2003 10.30am - 5pm**

**Hen Goleg**

**Gorymdaith, Siaradwyr, Gweithdai**

**Byddwch Yna!**

**Cysyllt: (01970) 611 304**

**Gig gyda'r nos yn y Clwb Pêl droed 9pm - 1am**

# Offer Heddwch

## Ymgyrchu'n Lleol

I gael gwybodaeth am ddigwyddiadau rheolaidd lleol a rhai a gynlluniwyd i ddigwydd os bydd ymosodiad yn digwydd ar Iraq, cysylltwch â'ch grp lleol neu Is-Gadeirydd CND Cymru yn eich ardal. Neu beth am drefnu eich digwyddiadau eich hun! Y rhai mwyaf llwyddiannus yw'r digwyddiadau sydd wedi cael eu cynnal mewn lleoliad prysur canolig, lle y mae'r arwyddion a'r baneri'n hawdd i'w gweld.

**Tanysgrifiwch hefyd i e-restr *just peace* trwy anfon e-bost heb neges at: just-peace-subscribe@yahoogroups.com.**

### Etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol:Mai 2003

Cysylltwch â phob ymgeisydd yn eich etholaeth ac ar eich rhestr ranbarth i ddatgan y byddwch yn pleidleisio dros yr ymgeiswyr sy'n gwrthwynebu'r rhyfel. Holwch nhw am eu safbwynt ynghylch yr ymosodiad arfaethedig ar Iraq. Trefnwch hystingiaid i'r ymgeiswyr ar y cyd â phobl eraill. Am fwy o fanylion ar yr ymgeiswyr, cysylltwch âu: CYTUN - Canolfan yr Eglwysi ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol : http://www.nationalassembly.freeserve.co.uk/Election.htm
Gwefan Blwyddlyfr Cymru: www.wyb2003.co.uk/ - 4k - 2 Mar 2003

### Syniadau ynghylch gweithredu:

Gwrthdystiadau (lleol, cenedlaethol a rhyngwladol); mynegi dicter a gwrthwynebiad trwy gadw StN (curo pethau swnllyd, gweiddi ayb); gwylnosweithiau distaw; gweithredu uniongyrchol di-drais – cynnal blocâd ar ddinasoedd; hedfan barcudiaid o gwmpas gwersylloedd milwrol; gwrthdystiadau gyda siaradwyr; blocâd post, e-bost/ a ffacs ar weinidogion/ adrannau/ swyddfeydd llywodraethol; piced neu wersyll heddwch o flaen y Cynulliad Cenedaethol; gofyn i siopau gau i fynegi cefnogaeth; trefnu i weithwyr a myfyrwyr 'gerdded allan'; streiciau eistedd a 'marw'; gwrthdystiadau gyda chaneuon, darlithoedd neu weddïau; theatr stryd; darlunio ar y palmant; stondinau ar y stryd. Trowch yn Arolygydd Arfau am ddiwrnod – ymwelwch â saflw milwrol / ffatri cynnyrch fferyllol / nwyddau electronig / cemegau / neu blasty rhyw weinidog yn y llywodraeth … gwisgwch sbectol drwchus a chot wen a chario clipfwrdd. Dosbarthu taflenni, ysgrifennu llythyrau – i wneuthurwyr penderfyniadau, cynrychiolwyr etholedig a'r wasg leol a chenedlaethol. Cymryd rhan mewn rhaglenni ffonio a thrafodaethau ar y radio. Trefnu/cymryd rhan mewn cyfarfodd dyhoeddus, gwneud ac arddangos baneri. Cynhyrchu cerdyn post enfawr a gwahodd y cyhoedd i'w lofnodi. Addurno ffensys. Defnyddiwch y dulliau sydd orau gennych chi. Byddwch yn bositif ac yn adeiladol! Peidiwch anghofio gwahodd y wasg a hysbysu CND Cymru, er mwyn lledaenu'r neges mor bell â phosibl. Os nad oes grup lleol neu os na allwch chi fynd allan, gallwch ymgyrchu o'ch cartref eich hun. Cysylltwch â'r papurau newydd, y teledu a'r radio, ysgrifennwch lythyrau a mynegwch gefnogaeth i bobl sy'n gweithredu yn uniongyrchol.

### Cysylltiadau Lobïo:

**Tony Blair AS**, 10, Downing Street, Westminster, Llundain SW1A 2AA Ffacs: 0207 925 0918 e-bost: remote-printer.Tony.Blair/DowningSt@442079250918.iddd.tpc.int
**Geoff Hoon AS**, Ysgrifennydd Gwladol 'Amddiffyn', MoD, Main Building, Whitehall, Llundain SW1A 2HB
**Jack Straw AS**, Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a'r Gymanwlad, F& C Office, Whitehall, Llundain SW1A 2AH
**Eich A.S.**: House of Commons, Westminster, Llundain SW1A 0AA
**Eich A.C**: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
**Eich ASE**: Senedd Ewrop, Wiertz-Straat, B-1047, Brussel-Bruxelles
**Mission of United Kingdom of Great Britain to the UN**: Sir Jeremy Greenstock, 885 Second Avenue, New York, NY 10017 USA Ffacs: 745-9332/ 745-9316 uk@un.int

**Ymunwch â CND Cymru i gefnogi a chadw mewn cysylltiad â'r ymgyrch hirdymor dros heddwch a chyfiawnder. Cysylltwch ag Ysgrifennydd Aelodaeth CND Cymru: 72, Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN (01792) 830 330**

# Grwpiau a Chyslltiadau yng Nghymru



## CND Cymru:

**(01550) 750 260 heddwch@nantgaredig.freeuk.com**
Cadeirydd: **Jill Evans** (01978) 311 564 **David Bradley (Gogledd)**: (01978) 311 564 **Is-Gadeiryddion: Olwen Davies (Y Canolbarth)**: (01970) 611 994 **Rod Stallard (De Orllewin)**: (01550) 750 260 **Ray Davies (De Ddwyrain)**: (029 20) 889 514

## Gogledd Cymru

**Arfon**: Ben Gregory, (01286) 882 359 benica@gn.apc.org
**Bangor ac Ynys Môn**: Linda Rogers(01248) 490 715 phil@tycerrig1.freeserve.co.uk
**Rhwydwaith Gwrth-Ryfel Clwyd**: Ged Turner, gedi@turnero.freeserve.co.uk
**Llangollen**: Jenny Davis 07940 444 891
**yr Wyddgrug**: David Mcknight, 07775 784 063 moldstopwar@yahoo.com
**Rhuthun**: Jean Leith 01824 705 592 mail@cleithj.freeserve.co.uk
**Wrecsam** : Genny Bove, (0845) 330 4505 mail@7times7.freeserve.co.uk
**Myfyrwyr Wrecsam**: David Mcknight, 07775 784 wrexhamsaw@yahoo.com

## Y Canolbarth

**Myfyrwyr Aberystwyth** : Lydia Bulmer, 0781 307 9583, ldbo@aber.ac.uk
**CND Aberystwyth**: Olwen Davies, (01970) 611 994
**Rhwydwaith Heddwch Aberystwyth** : Medi James (01970) 832 725 medi.james@wales.gov.uk
**Castellnewydd Emlyn** : Louis Friedman, (01559) 370 211 LouisFried@aol.com
**Cwm Dyfi**: Helena Earnshaw, (01654) 702 166 helena.earnshaw@pobox.com
**Trefyclo**: Ann Marie Davies, (01547) 528 833 amdskyborry@hotmail.com
**CND Llandrindod**: Siân Meredudd, (01597) 823 547
**Llanidloes**: Rachel Gaster (01686) 412 233
**Y Drenewydd**: Monica Bradley, (01686) 626 350 sevenbrookt@hotmail.com
**Croesoswallt** (bron â bod yng Nghymru!): George Miller, (01691) 658 330 george.miller@virgin.net
**Y Trallwng**: Gillian Blackburn (01938) 810 253 /Angus: angus.metal@telco4u.net

## Y De

**CND Abercynon**: Michele Davies, (01685) 879 842 horusisborn@aol.com
**Rhydaman: Pat Gill**: (01269) 595 538
**Coleg Iwerydd dros Atal y Rhyfel**:Joel Kenrick, (01446) 799 237 joelkenrick@yahoo.co.uk
**Y Coed Duon** : Ian Thomas, (01495) 225 326
**Aberhonddu**: Mike Gatehouse, (01874) 658 564 mike@keen.clara.co.uk
**CND Penybont ar Ogwr**:George Crabb, (01446) 774 452 georgecrabb@ybontfaen.freeserve.co.uk
**Cynghrair Penybont**: Pete Thompson (01656) 648 817 jackie@shwt.freeserve.co.uk
**CND Caerffili**: Ray Davies, (029 20) 889 514 wendy.lewis2@aladdinscave.net
**Cyfiawnder a Heddwch Caerdydd**: Frances Ballin, (029 20) 765 077 Frances@ballin.fslife.co.uk
**Aberteifi** : Des Llewellyn (01348) 874 366
**Caerfyrddin**: Barry Wade (01559) 384 671 annpettitt@chantecler.fsnet.co.uk
**Gwent**: Katrina Gass, (01873) 855 760 katrinagass@yahoo.co.uk
**Llanbedr PS** : Ron Whitehead (01239) 851 821 or Adam Stout (01570) 423 517
**Llanelli: Greg Jones**: (01554) 745 311
**Llandysul**:Siân ap Gwynfor: (01559) 362 649 GutoPrys@Annibynwyr.net
**Casnewydd** : Richard Morse, (01633) 860 774
**Trefdraeth**: Maureen Bennett (01239) 821 056/ (01348) 811 146
**Penarth** : Teresa Mitchell, (029 20) 705 458 Tree.Mitchell@btopenworld.com
**Rhondda Cynon Tâf** : Dominic MacAskill, 0777 9140 118 dominic.macaskill@ntlworld.com
**Cynghrair De Cymru: Teresa Goss(029 20) 499 579 teresagoss@roath47.freeserve.co.uk**
**CND Abertawe**, Loppy Garrard:(01792) 234 031 loppy@loppys.freeserve.co.uk
**Cynghrair Abertawe**: Cath Larkins, (01792) 234 031 cath@cynefin.plus.com

**Cymdeithas y Cymod**: Awel Irene, (01766) 771 100 awel.irene@virgin.net
**Credau ar y Cyd yn erbyn Rhyfel**:Ceridwen Owen (01656) 662 301 / 07866141 046.
**Palestine Solidarity Cymru**: Beaty Smith, 029 20 886113 beatysmith@hotmail.com
**Cyfarfod Cyfeillion yng Nghymru**: Joan Southern (01239) 612 213
**Llafur Cymru yn erbyn y Rhyfel**: 029 20) 898 784 Darren.Williams@wales.gov.uk
**Cynghrair Atal y Rhyfel**: (sefydliad Prydeinig): 020 7053 2155 www.stopwar.org.uk

# YMOSOD AR IRAQ?

Byddai ymosodiad ar Iraq yn anfoesol ac yn anghyfreithlon. Byddai'n peri mwy fyth o ddioddefaint i bobl Iraq ac yn distrywio'r amgylchedd.




# DYWEDWCH NA!
# GWEITHREDWCH!

- Ysgrifennwch i'ch AC, eich AS a/neu i'ch ASE.
- Siaradwch â ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr.
- Ymunwch ag eraill i brotestio. (Cysylltwch â ni i gael manylion y grwpiau sydd yn eich ardal).

## Ymunwch ag Ymgyrch Diarfogi Niwclear Cymru i'n helpu i adeiladu byd cyfiawn heb arfau dinistr torfol!

**Ffurflen Ymaelodi**

Enw:........................................................................
Cyfeiriad:..................................................................
.......................................................côd post..........................................
teleffôn: ...........................ebost:...................................................
amgaeaf siec/ab am £........ yn daladwy i ***CND Cymru***
pâr cyflogedig: £16 ☐ oedolyn: £12 ☐
digyflog a phensiynwyr :£4 ☐ myfyrwyr a ieuenctid: £4 ☐

Dychweler i:
CND Cymru, 72, Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN
ffôn: 01550 750 260
ebost: heddwch@nantgaredig.freeuk.com

02/2003. Argraffwyd gan serencymru. E-bost: argraffu@serencymru.org

# heddwch GWEITHREDU

cnd cymru gaeaf 2002/3

# YMOSOD AR IRAC?...NA!

**Mae CND Cymru yn galw ar ein holl aelodau a ffrindiau i weithredu ar frys yn wyneb bygythiad cynyddol ymosodiad milwrol ar Irac.Byddai rhyfel ar Irac yn effeithio'n ddeifiol ar fywydau a iechyd dinasyddion cyffredin Irac a phobl y gwledydd cyfagos, a milwyr, ar amgylchedd Irac ac ar weddill y byd.**

## *Pam rydym yn gwrthwynebu ymosodiad ar Irac:*

- Bydd rhyfel rhag-ataliol yn creu cynsail rhyngwladol newydd, peryglus. Mae'r UD a Phrydain yn dewis ailddehongli'r sail gyfreithiol dros fynd i ryfel o ran 'hunan-amddiffyn', gan newid holl 'gyfreithiau rhyfel' a bygwth twf peryglus mewn bygwth neu ddefnydd grym.
- Byddai ymosodiad o'r fath yn torri'r gyfraith ryngwladol.
- Nid yw meddu arfau dinistr torfol yn gyfiawnhad dros ymosod yn rhag-taliol ar Irac. Pe bai, gellid cyfiawnhau ymosodiadau rhag-ataliol ar Israel, Pakistan, India, Gogledd Korea, Rwsia, Ffrainc a China, ac i wledydd eraill ymosod yn yr un modd ar Brydain a'r UD.
- Does dim cysylltiad rhwng rhaglen arfau Irac a digwyddiadau'r 11[eg] Medi2001.
- Y dioddefwyr mewn unrhyw ryfel gan yr UD yn erbyn Irac fydd plant, menywod a dynion Irac.
- Dioddefwyr y rhyfel cartref fyddai'n dilyn hynny fydd pobl gyffredin Irac, unwaith eto.
- Byddai ymosodiad ar Irac yn dadsefydlogi llawer o wledydd eraill yn y Dwyrain Canol.
- Byddai effeithiau amgylcheddol a iechyd tymor-maith erchyll yn y Dwyrain Canol a thu hwnt.
- Ni fyddai ymosodiad o'r fath ynglyn ag arfau dinistr torfol ond ynglyn â rheoli'r olew. Pa wlad – Iran, Syria neu hyd yn oed Saudi Arabia – fyddai nesaf?
- Byddai mwy fyth o niwed i isadeiledd chwâl Irac wedi rhyfel a sancsiynau yn achosi mwy o ddioddefaint i bobl Irac.
- Byddai pob ochr yn talu'n hallt – mewn gwariant ar arfau, cymhorthdal 'meddiannu' wedi'r rhyfel, ac ailadeiladu economi chwâl Irac.
- Byddai'n porthi mwy o weithredoedd gan frawychwyr.
- Byddai rhyfel o'r fath a gefnogid gan lywodraeth Prydain yn erbyn ewyllys mwyafrif pobl Prydain.
- Mae dadleuon llywodraethau dros ddefnyddio arfau confensiynol ac arfau dinistr torfol yr un fath. Mae llywodraethau Prydain a'r UD wedi mynegi eu parodrwydd i ddefnyddio arfau dinistr torfol os ydynt yn 'barnu fod hynny'n angenrheidiol'.
- Dydy rhyfel ddim yn ffordd amgylcheddol gynaliadwy o ddatrys gwrthdaro.
- Mae'r amgylchedd eisoes wedi ei niweidio yn y gwledydd hynny sy'n paratoi i ymosod ar Irac, oherwydd cynhyrchu a phrofi arfau, a hyfforddi pobl i'w defnyddio.
- Heb wir gyfiawnder ni fydd gwir heddwch.

---

## Mae *heddwch* yn ôl!

**Bydd cylchgrawn CND Cymru, 'heddwch', yn glanio ar fatiau drws Cymru yn gynnar yn 2003.**

## Cadwch lygad yn agored amdano!

**Rhowch wybod i ni am eich digwyddiadau, meddyliau, syniadau, gobeithion ac ofnau a danfonwch eich ffotograffau neu luniau o weithredoedd atom yn y gobaith y gallwn eu cynnwys!**
**Danfonwch y cwbl at y Golygydd: Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri SA20 0LR**
**(01550) 750 260 heddwch@nantgaredig.freeuk.com**
**I wneud yn siwr eich bod yn cael copi, cysylltwch â Brian Jones, Aelodaeth CND Cymru, 72, Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN (01792) 830 330.**

## Mae'ch cyfraniad chi'n cyfrif!

**Cymerwch ran – neu trefnwch:**
Gwrthdystiadau (lleol, cenedlaethol a rhyngwladol)
Gwylnosau – am awr neu fwy, gyda chanhwyllau, lluniau o blant Iraci, byrddau negeseuon...
Protestiadau eistedd, Protestiadau ffugio marw, Protestiadau canu, Protestiadau dysgu' ,Protestiadau gweddi
Theatr Stryd, Stondinau strydGosod 'bocs sebon' mewn man cyhoeddus.
Tynnu lluniau ar y palmant (mewn sialc neu baent powdr)
Lobïo, picedu neu ymweld â swyddfeydd y llywodraeth neu gymorthfeydd ASau/ACau
Ewch yn Arolygydd Arfau am y dydd! Ymwelwch â gwersyll milwrol/ffatri fferyllol/ffatri electroneg/ ffatri gemegol/palas gweinidog y llywodraeth . . . gwisgwch sbectol drwchus a chot wen a chario clipfwrdd . . . rhowch wybod i'r wasg a ffrindiau . . .
Dosbarthu taflenni
Sgrifennu llythyron – at y bobl sy'n penderfynu, cynrychiolwyr etholedig, a phapurau lleol a chenedlaethol.Cynhaliwch barti sgrifennu llythyron ar gyfer ffrindiau – darparwch bapur, stampiau, amlenni, cyfeiriadau, lluniaeth ysgafn a syniadau.
Rhaglenni ffonio i mewn a thrafod ar y radio
Arwyddo deisebau a chasglu enwau
Trefnu/cymryd rhan mewn cyfarfodydd cyhoeddus.
Gwneud baneri a'u 'harddangos'.
Gwneud cerdyn anferth a chynnal sesiwn 'arwyddo' gyhoeddus. Rhoi posteri i fyny gyda'r neges.
**Defnyddiwch ddulliau rydych yn eu mwynhau.**
**Byddwch yn bositif ac yn adeiladol!**
**Peidiwch ag anghofio gwahodd y wasg a dweud wrth CND Cymru, i helpu i ledaenu'r neges ymhellach.**

## Beth ydyn ni ei eisiau

Nid yw CND Cymru yn cefnogi llywodraeth Irac na Saddam Hussein ond mae'n credu mewn buddsoddiad anferth mewn diplomyddiaeth, mewn cryfhau'r bobl a'u cymunedau drwy ddileu sancsiynau anfilwrol yn erbyn Irac, diwygio'r Cenhedloedd Unedig a gweithio drwyddo dros gyfiawnder rhyngwladol gwirioneddol i bawb. Dylid arolygu arfau a ffatrïoedd a chanolfannau amheus ym <u>mhob</u> gwlad sy'n meddu, neu yr amheir ei bod yn meddu, arfau dinistr torfol. Dylai pob gwlad sy'n meddu arfau dinistr torfol gymryd camau diffuant a fydd yn arwain at ddiarfogi gonest, llwyr ac absoliwt.

## BATHODYNNAU

**o Fasnachu CND Cymru** 50c yr un. 20c tal post lan at 5. Sieciau'n daladwy:" *Masnachu CND Cymru*".
**Archebion Swmpus o 'Y Faner Goch'** (10 am £4; 20 am £8; 30 am £12; 50 am £20. post di dâl) Bocs PO 661,Wrecsam LL11 1EH. yfanergoch@yahoo.co.uk
Sieciau'n daladwy : *"Y Faner Goch"*



## GRWPIAU A MUDIADAU YNG NGHYMRU SY'N GWEITHIO I ATAL RHYFEL:




### Y Canolbarth

**Grwp Heddwch a Chyfiawnder Gwent:**
Tom O'Malley: 01873-859628 neu Katrina Gass (01873) 855 760
**CND Llandrindod:**
Sian Meredudd (01597) 823 547
**Aberystwyth yn erbyn y Rhyfel:**
Medi James (01970) 832 725 neu llanerch@globalnet.co.uk
**Myfyrwyr Aberystwyth yn erbyn y Rhyfel:**
asaw@aber.ac.uk
**CND Abersytwyth:**
Olwen Davies (01970) 611994
**Grwp Heddwch a Chyfiawnder Aberhonddu:**
Mike Gatehouse (01874) 658 564 neu mike@keen.clara.co.uk
**Trefyclo:** Ann-Marie Davies (01547) 52833
**Y Canolbarth yn erbyn y Rhyfel:**
Monica Bradley: 01547 528833

### Gorllewin Cymru

**Caerfyrddin/Llandysul:**
Sian ap Gwynfor: (01559) 362 649 neu gutoprys@lineone.net
**Aberteifi yn erbyn y Rhyfel:** Paul Hawkes 0781 2711 501

### De Cymru

**Clymblaid Atal y Rhyfel De Cymru:**
Teresa Goss (02920) 499 579 / 07815775819 neu swcoalitionagainstthewar@hotmail.com
**CND Caerffili:**
Ray Davies: (02920) 889 514
**CND Cwm Cynon:**
Michele Davies: (01685) 879 842 neu horusisborn@aol.com
**Atal y Rhyfel Rhondda Cynon Tâf:**
Dominic MacAskill 0777 9140 118 neu dominic.macaskill@ntlworld.com neu rct.branch@unisonfree.net
**CND Pen-y-bont ar Ogwr:**
George Crabb (01446) 774452 neu georgecrabb@ybontfaen.freeserve.co.uk
**Clymblaid Pen-y-bont ar Ogwr dros Heddwch a Chyfiawnder:**
jackie@shwt.freeserve.co.uk
***Grwp Atal y Rhyfel Coleg Iwerydd:***
joelkenrick@yahoo.co.uk
**Clymblaid Atal y Rhyfel Casnewydd:**
Richard Morse: (01633) 860774
**CND Casnewydd:**
**Penarth:** Teresa Mitchell (02920) 705 458 neu Tree.Mitchell@btopenworld.com
**Grwp Heddwch a Chyfiawnder Caerdydd:**
Frances Ballin (02920) 765 077 neu Frances@ballin.fslife.co.uk
**Myfyrwyr Abertawe:**
swanseastudentsagainstwar@yahoo.com www.geocities.com/antiwarstudents/
**Clymblaid Abertawe yn erbyn y Rhyfel:**
Martin Chapman: swanseacoaltion@yahoo.co.uk www.geocities.com/swanseacoalition
**CND Abertawe:**
Mike Hayes (01792) 367 807 neu Brian Jones (01792) 830 330

### Gogledd Cymru

**Bro Ddyfi (Machynlleth a'r Cylch):**
Jessie Malone (01654) 703 823 neu dyfipeacegroup@yahoo.co.uk
**Grwp Heddwch a Chyfiawnder Arfon:**
Ben Gregory (01286) 882 359 neu benica@gn.apc.org
**Grwp Heddwch a Chyfiawnder Bangor ac Ynys Môn:**
Linda Rogers (01248) 490 715 neu phil@tycerrig1.freeserve.co.uk
**Rhwydwaith Gwrth-Ryfel Clwyd:**
Gerard Turnkins: 07719432313 neu gerard@turnkins.freeserve.co.uk
**Clymblaid Atal y Rhyfel Wrecsam:**
Genny Bove: 0845 330 4505 (cyfradd leol), symudol:07775784 063 neu wrexhamsaw@yahoo.com
**Myfyrwyr Wrecsam yn erbyn y Rhyfel:**
David Mcknight: 07775784 063 neu wrexhamsaw@yahoo.com
**Canolfan Heddwch a Chyfiawnder Wrecsam:**
Owen Hardwicke (01978) 852 297

### Eraill

**CND Cymru: Nantgaredig, Llanymddyfri SA20 0LR (01550) 750 260 neu heddwch@nantgaredig.freeuk.com**
**Cynefin y Werin:** Claire Sant Ley Berry (02920) 821 055 or claresainleyberry@wcia.org.uk
**Palestine Solidarity Cymru:** Beaty Smith (02920) 886 113 neu beatysmith@hotmail.com
**Cymdeithas y Cymod :** Awel Irene: (01766) 771 100 neu awel.irene@virgin.netor
***Fforest y Ddena:*** *carl@shadyproductions.fsnet.co.uk*
***Croesoswallt:*** *George Miller: george.miller@virgin.net*

## DYDDIADAU DYDDIADUR

**Rhagfyr 16eg 6.30pm** BANGOR *'Os bydd rhyfel yn cychwyn...'* **cyfarfod cynllunio arbennig** ar gyfer y grwp. Yn Y Ffynnon, Ffordd y Tywysog, Bangor Uchaf, cysyllter â: (01248) 490 715 neu linda@tycerrig1.freeserve.co.uk
**Rhagfyr 19eg 7.30pm PONTYPRIDD Cyfarfod Cyhoeddus** Canolfan Hanesyddol Pontypridd. Cadeirydd, Sharon Jones, UNISON, Siaradwyr: Geraint Davies AC, Ray Davies a siaradwr 'Clymblaid Atal y Rhyfel'. Cysyllter â: Clymblaid Atal y Rhyfel Rhondda Cynon Tâf: Dominic MacAskill dominic.macaskill@ntlworld.com
**Rhagfyr 19eg 6-7pm** (a phob nos Iau) **Gwylnos Heddwch WRECSAM**. Tu allan i M&S yng Nghanol y Dref. Cysyllter â: 0845 330 4505 (cyfradd leol) neu 07775 784 063 (symudol) neu e-bost wrecsamsaw@yahoo.com
**Rhagfyr 28ain** Dydd y Gwirioniaid
**Ionawr 6ed 6.30pm BANGOR Cyfarfod Grwp** Y Ffynnon, Ffordd y Tywysog, Bangor Uchaf. Cysyllter â: (01248) 490 715 neu linda@tycerrig1.freeserve.co.uk
**Ionawr 6ed 7.30pm CAERNARFON Cyfarfod Grwp, Capel Salem,** Grwp Cyfiawnder a Heddwch Arfon. Cysyllter â: (01286) 882 359 neu benica@gn.apc.org
**Ionawr 11eg 10.00am tan 5.00pm LLUNDAIN Cynhadledd Clymblaid** Atal y **Rhyfel Prydain. Cysyllter â:** 020 7053 2155/07951 235 915 **office@stopwar.org.uk**
**Ionawr 18fed Rali yn erbyn y Rhyfel CAERDYDD.** Gwnawn hwn yn ddigwyddiad cenedlaethol! Cysyllter ag Atal y Rhyfel De Cymru 02920 889 514 02920 499 579 neu 07815775819
**Ionawr 18fed –19eg NORTHWOOD Lloegr, Gwersyll y Fyddin Brydeinig, Anufuddhau Sifil Di-drais.** Cysyllter â: 0845 458 2564 neu gweler: www.j-n-v.org
Ionawr 21ain 2.00pm **LLUNDAIN: LOBI SENEDDOL A RALI. Dwedwch wrth eich AS 'Peidiwch ag ymosod ar Irac'. Bydd ffigurau amlwg o wahanol feysydd yn ymuno â gwleidyddion i siarad yn erbyn y rhyfel. Os na allwch fod yno, gallwch sgrifennu ato/ati yn: Ty'r Cyffredin, Llundain SW1A OAA neu ebostio: www.parliament.uk/commons/lib/alms.htm Cysyllter â: CND Prydeinig 020 7700 2393 neu No War on Iraq Liaison committee@no-war-on-iraq.org.uk**
**Chwefror 1af ABERTAWE** "Gorymdaith De a Gorllewin Cymru yn erbyn y Rhyfel" Cysyllter â Chlymblaid Abertawe yn erbyn y Rhyfel 01792 526 405 neu swanseacoalition@hotmail.com
**Chwefror 14eg LLUNDAIN** Noson 'Atal y Rhyfel' o ddigwyddiadau diwylliannol, gweithgareddau a thrafod. Am fwy o fanylion, ffoniwch **0207 053 2155.**
**Chwefror 15th LLUNDAIN Rali yn erbyn y Ryfel** Bysys o Gymru (Cysyllter â'ch grwp lleol) Manylion i'w cyhoeddi. Trefnwyr y rali: 020 7053 2155/07951 235 915 office@stopwar.org.uk
**Chwefror 23ain Un mlwyddiant ar hugain Cymru Ddi-Niwclear** (1982)
**Chwefror ABERYSTWTYH Dydd Cymru yn Erbyn y Rhyfel** i'w gyhoeddi
**Mawrth 8fed** Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
**Mawrth 10fed–13eg** Achos Ray Davies a Margaret Jones yn Reading am 'Dresmasu' a 'Niwed Troseddol' honedig yn Aldermaston. Cysyllter â Ray: (02920) 889 514
**Ebrill 5ed** 11.00am **ABERYSTWYTH Cyfarfod Blynyddol CND Cymru.** Capel y Morfa, Stryd Portland, Aberystwyth. Croeso i bob aelod, cynrychiolydd ac aelod cysylltiedig sydd wedi talu eu tâl aelodaeth. Manylion i'w cyhoeddi. Cysyllter â: (01550) 750 260 neu heddwch@nantgaredig,freeuk.com

## DIGWIDDIADAU RHEOLAIDD

WRECSAM: Stondin Heddwch, gwahanol ddyddiau, canol y dref, Sgwâr y Frenhines neu o dan y bwa gyferbyn â thafarn yr Horse and Jockey. Cysyllter â: 0845 330 4505 (cyfradd leol) neu 07775 784 063 (symudol) neu e-bost wrexhamsaw@yahoo.com
ABERTAWE: Gwylnosau distaw wythnosol yng Ngerddi Ty Cwrdd y Cyfeillion, Stryd Page Street, Abertawe, 10 - 10.30am ac yng Nghanol y Ddinas 11-12.30am bob dydd Sadwrn.
CAERDYDD: Gwylnos bob nos Wener, 5 p.m., cerflun Aneurin Bevan, Heol y Frenhines.

## GWYLNOSAU

**Os bydd y trais yn cynyddu'n sydyn, bwriedir cynnal gwylnosau yn fuan wedi hynny, mewn trefi ledled Cymru. Cysylltwch â'ch cyswllt lleol i gael mwy o wybodaeth, neu trefnwch eich gwylnos eich hun.**
CAERDYDD: Cerflun Aneurin Bevan, Heol y Frenhines, 6 p.m. yr un dydd.
WRECSAM: Rali, protest, siaradwyr ac ati, hanner dydd drannoeth, Sgwâr y Frenhines.
ABERTAWE: 12.30pm a gyda'r nos (5pm) – Gerddi'r Castell, Canol Dinas Abertawe.
Dydy'r dyddiadur yma ddim yn gyflawn, ond os oes arnoch angen gwybodaeth am unrhyw rai o'r digwyddiadau hyn, neu am ychwanegu at y rhestr, da chi, cysylltwch â CND Cymru.

### Ymgyrchu cefn gwlad ac o'r gadair freichiau

Os nad oes grwp yn y cyffiniau, neu os nad ydych yn gallu gadael y cartref, mae gwaith ymgyrchu pwysig i'w wneud o'r cartref. Chwaraewch ran mewn rhaglenni radio ffonio i mewn, sgrifennwch lythyron a chefnogwch bobl eraill sy'n gweithredu'n uniongyrchol. Cadwch mewn cysylltiad â'r ymgyrch, dydych chi ddim ar ein pen eich hun!

### Ar gyfer sgrifennu llythyron:

**Tony Blair AS,** Y Prif Weinidog, 10 Downing Street, Llundain SW1A 2AA
**Jack Straw AS,** Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a'r Gymanwlad, Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, Whitehall, Llundain SW1A2AH
**Geoff Hoon AS,** Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, MoD, Main Building, Whitehall, Llundain SW1A 2HB
**Eich AS:** Ty'r Cyffredin, Westminster, Llundain SW1A 0AA
**Eich AC:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
**Eich ASE:** Y Senedd Ewropeaidd,Wiertz-Straat, B-1047 Brwsel (stamp 37c)